**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Diwygio'r CAP 2014-20: Cytundeb yr UE a'i Weithrediad yn y DU ac Iwerddon

Tachwedd 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/077
Rhif dogfen:13/1710

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Diwygio'r CAP 2014-20: Cytundeb yr UE a'i Weithrediad yn y DU ac Iwerddon

Tachwedd 2013

Mae'r papur hwn yn amlinellu ymateb a phenderfyniadau gweithredu arfaethedig pedair gwlad y DU yn ogystal ag Iwerddon mewn perthynas â phecyn diwygio newydd y Polisi Amaethyddol Cyffredin ar gyfer 2014-20.

Mae'r cytundeb newydd, sydd yng nghamau olaf proses drafod yr UE, yn rhoi cryn hyblygrwydd i Aelod-wladwriaethau a'u rhanbarthau o ran sut y byddant yn gweithredu'r darpariaethau. Felly gallai'r penderfyniadau gweithredu a wneir yn y DU ac Iwerddon fod yn sylweddol wahanol, er gwaetha'r ffaith bod ffiniau cyffredin o fewn y DU ac yn rhyngwladol (Iwerddon/y DU). Nod y papur hwn yw dangos y prif wahaniaethau a'r dulliau gweithredu tebyg sy'n dod i'r amlwg. Mae hefyd yn ystyried cyfeiriad posibl diwygio'r PAC yn y dyfodol.

Awduron:
Mark Allen, Gwasanaeth Gwybodaeth ac Ymchwil Cynulliad Gogledd Iwerddon
Emma Downing, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin
Tom Edwards, Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICe)
Nia Seaton, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Maggie Semple, Gwasanaeth Llyfrgell ac Ymchwil Tŷ'r Oireachtas

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Oireachtas Library & Research Service
Seirbhís Leabharlainne & Taighde an Oireachtais
Houses of the Oireachtas
Tithe an Oireachtais
SPICe The Information Centre
House of Commons Library
Northern Ireland Assembly

## Crynodeb

Mae pecyn diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ar gyfer 2014-20 yng nghamau olaf trafodaethau'r UE a daethpwyd i gytundeb gwleidyddol cyffredinol ar y prif elfennau ym mis Mehefin 2013.   Caiff y prif ddarpariaethau diwygio eu gweithredu ym mis Ionawr 2015 a bydd 2014 yn flwyddyn bontio.

Mae'r papur hwn yn amlinellu ymateb pedair gwlad y DU ac Iwerddon i'r pecyn diwygio newydd a'u penderfyniadau arfaethedig ynghylch ei weithredu. Dengys y gwahaniaethau allweddol a'r dulliau gweithredu cyffredin sy'n dod i'r amlwg ac mae hefyd yn ystyried cyfeiriad posibl diwygio'r PAC yn y dyfodol.

Mae'r cytundeb newydd yn rhoi hyblygrwydd i Aelod-wladwriaethau a'u rhanbarthau o ran sut y byddant yn gweithredu darpariaethau'r PAC i'w galluogi i deilwra eu polisi i'w hanghenion a'u dulliau amaethyddol penodol hwy, ac mae hyn wedi'i groesawu. Golyga hyn fod potensial i'r penderfyniadau gweithredu a wneir yn y DU ac Iwerddon fod yn sylweddol wahanol, er gwaetha'r ffaith eu bod yn rhannu ffiniau o fewn y DU ac yn rhyngwladol (y DU/Iwerddon).  Mae natur ryngwladol cynhyrchu, prosesu a manwerthu bwyd yn golygu y gallai’r dulliau gweithredu gwahanol gael effaith sylweddol ar y diwydiant ffermio a diwydiannau bwyd-amaeth ehangach, yn arbennig mewn awdurdodaethau cyfagos. Erbyn hyn mae'n gyffredin i fwyd gael ei gynhyrchu mewn un rhanbarth/Aelod-wladwriaeth yr UE, ei brosesu mewn rhanbarth/Aelod-wladwriaeth arall ac yna'i farchnata neu'i werthu mewn llawer o Aelod-wladwriaethau/rhanbarthau eraill.

Yn gyffredinol cred gweinyddiaethau a ffermwyr gwledydd y DU ac Iwerddon fod ganddynt becyn diwygio derbyniol y gallant weithio ag ef. Fodd bynnag, mae llawer o randdeiliaid amgylcheddol wedi bod yn siomedig bod y gofynion 'gwyrdd' sy'n gysylltiedig â thaliadau uniongyrchol (Colofn 1) wedi cael eu glastwreiddio o gymharu â'r cynigion gwreiddiol ac maent bellach yn edrych tuag at gronfeydd datblygu gwledig (Colofn 2) i gryfhau nodweddion amgylcheddol y PAC.

Ar hyn o bryd mae’r llywodraethau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon yn ymgynghori ar eu dulliau gweithredu a bydd yr Alban yn cynnal ymgynghoriad cyn diwedd y flwyddyn. Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai dyraniadau PAC yn y DU yn aros yr un fath ar gyfer y cylch cyllido nesaf sy'n caniatáu i  bob un o'r peddair gwlad gynllunio yn unol â'r adnoddau y gwyddant eu bod ar gael.  Mae'r dyraniad hwn wedi'i groesawu gan bob gweinyddiaeth ac eithrio Llywodraeth yr Alban sy'n credu y dylai'r Alban fod wedi cael cyfran fwy. Dadleua fod ei thaliadau isel fesul hectar wedi lleihau taliad cyfartalog y DU ac felly'n galluogi'r DU i fod yn gymwys i gael taliad "chwyddo" ychwanegol gan y DU y dylai ffermwyr yr Alban ei gael. Bwriedir i'r taliad hwn wneud y taliadau uniongyrchol yn fwy cyfartal ar draws Aelod-wladwriaethau'r UE (gelwir hyn yn gydgyfeirio allanol).

O'r cynigion cychwynnol a gyflwynwyd, mae'n amlwg bod dulliau gweithredu "pwrpasol" gwahanol iawn yn debygol o ddeillio ym mhob maes hyblygrwydd a ganiateir, yn arbennig mewn perthynas â chymorth cysylltiedig (taliadau uniongyrchol sy’n gysylltiedig â chynhyrchu), gan ddefnyddio Cynllun Cenedlaethol i gymhwyso gofynion gwyrdd cyfatebol, a modiwleiddio (trosglwyddo cyllid o Golofn 1 i Golofn 2). Mae rhywfaint o dir cyffredin o ran cynnig isafswm maint ar gyfer hawliadau (sef 5 hectar) a pheidio â gweithredu Cynllun y Ffermwyr Bach.  Yr hyn *nad* yw'n glir yw i ba raddau y bydd modd defnyddio'r hyblygrwydd hwn o ran gweithredu'r PAC cyn iddo ddechrau tanseilio dull gweithredu 'cyffredin' a chreu sefyllfa annheg o ran cystadleurwydd ledled Ewrop.

# Contents


1. **Cyflwyniad** ..... 1
   - 1.1. Y PAC rhwng 1962 a 2013 ..... 1
   - 1.2. Ffermio yn y DU ac Iwerddon ..... 5
2. **Gweithredu’r PAC yn ystod 2005-2013 - y Taliad Sengl** ..... 11
3. **Cytundeb Mehefin 2013 ar y PAC ar gyfer 2014-20** ..... 16
4. **Yr ymateb i'r Cytundeb** ..... 25
   - 4.1. Lloegr ..... 25
   - 4.2. Gogledd Iwerddon ..... 27
   - 4.3. Yr Alban ..... 29
   - 4.4. Cymru ..... 31
   - 4.5. Iwerddon ..... 33
   - 4.6. Sefydliadau Ewropeaidd ..... 34
5. **Trefniadau pontio ar gyfer 2014** ..... 37
   - 5.1. Lloegr ..... 37
   - 5.2. Gogledd Iwerddon ..... 38
   - 5.3. Yr Alban ..... 38
   - 5.4. Cymru ..... 39
   - 5.5. Iwerddon ..... 40
6. **Dosbarthu cyllideb PAC** ..... 41
   - 6.1. Lefel bresennol y taliadau ..... 41
   - 6.2. Dosbarthu cyllideb CAP yn y DU yn y dyfodol ..... 43
   - 6.3. Lloegr ..... 45
   - 6.4. Yr Alban ..... 45
   - 6.5. Gogledd Iwerddon ..... 47
   - 6.6. Cymru ..... 48
7. **Gweithredu'r PAC yn y DU ac Iwerddon** ..... 49
8. **Dyfodol y PAC** ..... 62

# Diwygio'r CAP 2014-20: Cytundeb yr UE a'i Weithrediad yn y DU ac Iwerddon

## 1. Cyflwyniad

Mae manylion y cylch presennol o ddiwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ar gyfer 2014-2020 yn cael eu penderfynu. Dyma'r set ddiweddaraf o ddiwygiadau yn hanes hirfaith y polisi a luniwyd yn 1962. Mae'r diwygiadau hyn, ac yn arbennig y newidiadau pellgyrhaeddol yn y diwygiadau i'r polisi y cytunwyd arnynt yn 2003, yn gosod y cyd-destun ar gyfer y pecyn diwygio presennol a chânt eu crynhoi isod.

Mae'r PAC yn faes polisi cymhleth lle mae rhestr helaeth o dermau technegol cysylltiedig wedi datblygu. Caiff y rhain eu hegluro'n gryno yn y papur ond mae rhestr lawn o derminoleg y PAC ar ddiwedd y papur hwn i gynorthwyo dealltwriaeth.

### *1.1. Y PAC rhwng 1962 a 2013*[1]

**Y blynyddoedd cynnar: o brinder i warged**

Yng Nghytuniad Rhufain 1957 gwnaethpwyd darpariaeth ar gyfer Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), a sefydlwyd y polisi yn 1962. Roedd Ewrop wedi dioddef yn sgil prinder bwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac ar ei ôl, ac amcan gwreiddiol y PAC oedd cynnyddu'r bwyd a gâi ei gynhyrchu. Ceisiodd y PAC wneud hyn drwy warantu prisiau i ffermwyr am eu cynnyrch drwy reoli'r galw. Cafodd grawn, llaeth, gwin, olew olewydd a chig eu tynnu oddi ar y farchnad a'u cadw mewn storfa ymyrryd i gadw prisiau'n uwch na lefel darged. Pennwyd tariffau i gyfyngu ar gystadleuaeth, a chafodd allforion cynhyrchion dros ben eu sybsideiddio.

Bu'r polisi mor llwyddiannus o ran cynyddu cynhyrchiant mewnol nes erbyn diwedd y 1970au a dechrau'r 1980au y broblem i lunwyr polisïau oedd sut i ymdrin â mynyddoedd grawn a llynoedd gwin a llaeth. Eu hateb oedd cyflwyno mesurau rheoli cyflenwadau. Er enghraifft, cyflwynwyd cwotâu llaeth yn 1984 a chyflwynwyd neilltir yn 1992. Roedd y polisi neilltir yn ei gwneud yn ofynnol i roi'r gorau i ddefnyddio ychydig o dir fel tir cynhyrchu amaethyddol. Yn 1970 cyflwynwyd cymorth penodol i ffermwyr mewn Ardaloedd Llai Ffafriol hefyd.

---

[1] Papur briffio SPICe 11/06, *CAP Reform: Proposals for 2014-20*, 28 Ionawr 2011 a Rheoliad y Cyngor 73/2009 yn sefydlu'r rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol i ffermwyr, o dan y polisi amaethyddol cyffredin gan sefydlu rhai cynlluniau cymorth i ffermwyr, Rheoliadau diwygio, 19 Ionawr 2009

**Diwygiadau MacSharry ac Agenda 2000 - ymateb i ddatblygiadau masnach y byd**

Roedd y cyfnod nesaf yn hanes y PAC wedi'i nodweddu gan ymateb yr UE i ganlyniad y trafodaethau masnach rhyngwladol yn y Cytundeb Cyffredinol ar Dariffau a Masnach ac yna Sefydliad Masnach y Byd, i geisio lleihau i ba raddau yr oedd y PAC yn ystumio masnach. Mae'r polisi hefyd wedi esblygu mewn ymateb i bryderon dinasyddion yr UE ynghylch yr angen i ddiogelu'r amgylchedd, ac i wella lles anifeiliaid.

I helpu i leihau ystumiadau masnach lleihawyd y cymorth mewn perthynas â phrisiau, gan ganiatáu i brisiau ym marchnad fewnol yr UE ostwng yn agosach at bris marchnad y byd. Yn ogystal, cyflwynwyd taliadau uniongyrchol, fesul hectar ar gyfer cnydau a thaliadau y pen ar gyfer da byw, i ddiogellu ffermwyr. Dechreuodd y dull hwn yn sgil diwygiadau 'MacSharry' yn 1992, a gytunwyd o dan Ray MacSharry, Comisiynydd Amaethyddiaeth Iwerddon, a pharhaodd gyda diwygiadau Agenda 2000, a gytunwyd yn 1999 o dan Franz Fischler, Comisiynydd Awstria. Yn ogystal ceisiodd diwygiadau Agenda 2000 ddiwygio'r PAC i ystyried y ffaith bod deg Aelod-wladwriaeth newydd o Ganolbarth a Dwyrain Ewrop wedi ymuno â'r UE yn 2004.

Disgrifir taliadau uniongyrchol i ffermwyr a'r cymorth i'r farchnad a oedd yn weddill fel 'Colofn 1' y PAC. Newid pwysig arall yn niwygiadau Agenda 2000 oedd dod â chynlluniau amaeth-amgylchedd a chymorth i ffermwyr mewn Ardaloedd Llai Ffafriol ynghyd gyda mesurau datblygu gwledig eraill mewn rheoliad datblygu gwledig. Yr enw cyffredin ar y polisi datblygu gwledig hwn yw 'Colofn 2' y PAC.

Yn nherminoleg Sefydliad Masnach y Byd, gelwir cymorthdaliadau sy'n ystumio masnach yn daliadau "blwch melyn", ac mae cytundeb Sefydliad Masnach y Byd yn cyfyngu ar y swm y gall llofnodwyr ei wario ar y math hwn o daliad. Gelwir cymorthdaliadau a fyddai'n ystumio cynhyrchu, ond sy'n destun cyfyngiadau cynhyrchu e.e. cwotâu neu neilltir, yn gymorthdaliadau "blwch glas". Ar hyn o bryd nid oes cyfyngiadau ar wariant ar gymorthdaliadau blwch glas. Gelwir cymorthdaliadau na chânt unrhyw effaith ar fasnach yn gymorthdaliadau blwch gwyrdd, ac nid oes terfynau'n gysylltiedig â hwy. Cafodd taliadau y pen a thaliadau ardal a ddefnyddiwyd gan yr UE eu categoreiddio fel taliadau "Blwch glas" ac nid oeddent yn destun cyfyngiadau.[2]

[2] h.y. taliadau a wneir ar sail nifer y da byw o fath penodol a gedwir ar fferm

## Fischler, datgysylltu a chyflwyno Taliadau Sengl (2003)

Cytunwyd ar y newid mawr nesaf yn y polisi yn ystod diwygiadau "Fischler" yn 2003. Bwriadwyd i'r diwygiad fod yn adolygiad canol tymor o gytundeb Agenda 2000 a oedd i barhau tan 2006, ond y diwygiadau hyn oedd y rhai mwyaf radical ers cyflwyno'r polisi.

Dadleuodd y Comisiwn yn llwyddiannus fod angen diwygiad mwy radical, yn hytrach nag adolygiad canol tymor, i gryfhau sefyllfa'r UE yng nghylch Doha arfaethedig trafodaethau Sefydliad Masnach y Byd. Mewn trafodaethau yn y gorffennol roedd y Comisiwn wedi treulio llawer o'i amser yn amddiffyn y PAC, felly byddai diwygio'n galluogi'r Comisiwn i alw am well cytundeb ar fynediad i farchnadoedd eraill, a fyddai o fudd i'r UE. Conglfaen y diwygiad oedd cyfuno cynlluniau cymhorthdal, a oedd yn gynlluniau ar wahân, yn Daliad Sengl a fyddai'n cael ei 'ddatgysylltu' oddi wrth gynhyrchu.

Y sail resymegol dros y dull gweithredu hwn yw, drwy ddileu'r cymhellion a grewyd gan rai o'r cynlluniau cymhorthdal blaenorol, e.e. taliadau y pen am ddefaid, y bydd ffermwyr yn sicrhau bod eu cynnyrch yn cyd-fynd yn well â'r galw yn y farchnad - ni fydd ganddynt bellach reswm i gadw mwy o anifeiliaid nag y byddent yn ei wneud fel arall dim ond er mwyn hawlio'r cymhorthdal arnynt. Gan nad ydynt yn gysylltiedig â chynhyrchu, dadleua'r UE nad yw Taliadau Sengl yn ystumio masnach, ac felly eu bod yn daliadau "blwch gwyrdd". Bwriadwyd i gylch Sefydliad Masnach y Byd ddod i ben yn 2003, ond ni ddaethpwyd i gytundeb ac mae cytundeb ar gymorthdaliadau fferm yn parhau i fod yn un o'r meysydd sydd heb ei ddatrys. Wrth sôn am y posibilrwydd o ddod i gytundeb yn y Cyfarfod Gweinidogol yn Bali ym mis Rhagfyr 2013, dywedodd Pascal Lamy, Cyfarwyddwr Cyffredinol Sefydliad Masnach y Byd fod "dwy ran o dair o'r gwydryn yn llawn". [3]


Er mwyn cael y Taliad Sengl mae'n rhaid i ffermwyr gadw eu tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da, a pharchu cyfreithiau'r UE ar fioamrywiaeth, lles anifeiliaid, a'r amgylchedd dŵr - meini prawf a elwir yn "drawsgydymffurfio". Mae Taliadau Sengl yn Y 10 Gwlad o Ganolbarth a Dwyrain Ewrop a ymunodd â'r UE yn 2004, ac yn Rwmania a Bwlgaria a ymunodd yn 2007, wedi'u gwneud fel taliad arwynebedd ar gyfradd safonol, gyda chyfraddau'n cynyddu'n raddol i gyrrraedd lefelau cyfatebol mewn Aelod-wladwriaethau eraill erbyn 2013.

[3] Lamy "Clearer" road to Bali Ministerial, though work remains, *Bridges Weekly*, 25 Gorffennaf 2013

## Archwiliad Iechyd 2008

Cytunwyd ar y newidiadau mwyaf diweddar i'r polisi (cyn y diwygiadau presennol) fel rhan o 'Archwiliad Iechyd' yn 2008. Cafodd y graddau yr oedd modd parhau i gysylltu cymorthdaliadau â chynhyrchu ei leihau, diddymwyd neilltir, a chynyddwyd yr adnoddau a drosglwyddwyd o Golofn 1 i Golofn 2 PAC (modiwleiddio). Fodd bynnag, erys nodweddion sylfaenol y polisi a gytunwyd yn 2003 a'r Taliad Sengl sydd wedi'i ddatgysylltu. [4] Caiff esblygiad y PAC o'i sefydlu hyd heddiw ei grynhoi yn Ffigur 1 isod. Mae'r siart bar yn Ffigur 2 yn rhoi darlun ar ffurf graff o'r ffordd y mae diwygiadau PAC dros y 30 mlynedd diwethaf wedi newid o gefnogi prisiau i gefnogi cynhyrchwyr.

**Ffigur 1: Datblygiad hanesyddol y PAC**





Ffynhonnell: Llywodraeth yr Alban (2010a)

---

[4] Y Comisiwn Ewropeaidd, *Health Check of thet CAP - Before and After*, Mawrth 2009

**Ffigur 2: Esblygiad gwariant y PAC 1980-2011**




Ffynhonnell: Gwefan [Y Comisiwn Ewropeaidd, Mawrth 2013]

## *1.2. Ffermio yn y DU ac Iwerddon*

Mae diwygiadau presennol y PAC yn rhoi cryn dipyn o hyblygrwydd o ran gweithredu'r polisi i Aelod-wladwriaethau. Bydd hyn yn caniatáu iddynt addasu'r pecyn diwygio i gyd-fynd â'u blaenoriaethau ffermio. Yn Nhabl 1 (drosodd) ceir ystod o ddata yn cymharu nodweddion allweddol y systemau ffermio ym mhedair gwlad y DU ac Iwerddon sy'n dangos eu dulliau gweithredu a'u blaenoriaethau gwahanol.

Dengys y data y canlynol:

- Mae gan Loegr sector ffermio gwahanol iawn i wledydd eraill y DU ac Iwerddon. Dim ond 17% o Loegr sydd wedi'i dyrannu'n Ardaloedd Llai Ffafriol o gymharu â >70% yn y pedair gwlad arall. Mae tua hanner y tir fferm yn Lloegr yn dir a ddefnyddir i dyfu cnydau, sy'n esbonio'r nifer fawr o hectarau a neilltuir i dyfu cnydau cyfun (gwenith, haidd a rêp had olew). Mae indrawn yn gnwd sy'n dod yn fwyfwy pwysig, yn arbennig yn Lloegr, lle y defnyddir mwy o dir yn awr i dyfu indrawn nag a wneir i dyfu tatws. Caiff ei ddefnyddio'n bennaf i wneud silwair ar gyfer porthiant anifeiliaid.
- Datgelir yr heriau penodol sy'n ymwneud â ffermio yn yr Alban yn sgil y ffaith bod tua dwy ran o dair o dir fferm yr Alban yn dir pori garw.

- Dangosir pwysigrwydd ffermio gwartheg yn Iwerddon gan y ffaith bod ganddi'r un nifer o wartheg godro a mwy o wartheg eidion na Lloegr ond llai na hanner arwynebedd y tir fferm. Yn yr un modd, dangosir pwysigrwydd y sector eidion yn yr Alban gan y ffaith bod mwy na dwywaith nifer y gwartheg eidion yno o gymharu â gwartheg godro. Mae gan Gymru, Iwerddon a Gogledd Iwerddon yr un nifer o wartheg eidion a gwartheg godro yn fras, ond mae gan Loegr fwy o wartheg godro na gwartheg eidion.
- Mae cynhyrchu defaid yn bwysig yng Nghymru. Mae dros 4m o yn ei diadelloedd mamogiaid bridio, sef 1.5m yn fwy nag yn yr Alban, sy'n cwmpasu traean o'r ardal sy'n cael ei ffermio. Mae'r gyfran uwch o borfa o ansawdd gwell yng Nghymru yn caniatau cyfraddau stocio uwch.
- Mae cynhyrchu cig mochyn, cig dofednod ac wyau ar ei uchaf yn Lloegr.
- Mae gan Loegr a'r Alban ffermydd llawer mwy ar gyfartaledd, sef tua 100 hectar, o gymharu ag Iwerddon, Gogledd Iwerddon neu Gymru, lle mae maint cyfartalog fferm tua 30-40 hectar. Mae hyn, ynghyd â chyfran fwy o dir mwy cynhyrchiol yn Lloegr, yn helpu i esbonio allbwn gros uwch ffermydd Lloegr a llai o ddibyniaeth ar gymorthdaliadau na'r pedair gwlad arall. Er gwaetha'r ffaith bod ganddi ffermydd mwy, mae cyfartaledd y cynnyrch fesul fferm yn is yn yr Alban o gymharu â Gogledd Iwerddon, ac yn yr Alban y mae'r cynnyrch isaf fesul hectar o gymharu â phob un o wledydd y DU ac Iwerddon.
- Mae cyfanswm cyflogaeth mewn amaethyddiaeth fel canran o gyfanswm y gweithlu yn uwch yn Iwerddon a Gogledd Iwerddon, sy'n amlygu pwysigrwydd y sector i'r economi yno.

**Tabl 1- Ffeithiau a ffigurau dethol am ffermio 2012**

| | Lloegr | Iwerddon[5] | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arwynebedd amaethyddol (hectar) (% o gyfanswm y tir) | 9,384,082 (72) | 4,530,000 (66)[6] | 1,027,827 (73) | 6,187,800 (79) | 1,748,919 (84) |
| Nifer y ffermydd | 103,804 | 139,860[7] | 24,285 | 52,625 | 41,277 |
| Y cyfanswm a gyflogir mewn amaethyddiaeth (% o'r gweithlu) | 307,000 (1.1) | 103,400 (5.6)[8] | 30,000 (3.7) | 41,000 (1.7) | 28,000 (2.1) |
| % a ddynodwyd fel Ardal Llai Ffafriol | 17 | 75 | 70 | 85 | 81 |
| Cnydau: Glaswellt: Tir pori garw (% o gyfanswm yr ardal sy'n cael ei ffermio ) | 47 : 43 : 10 | 8 : 81 : 11[9] | 5 : 77 : 18 | 10 : 24 : 66 | 5 : 71 : 24 |
| Maint Cyfartalog y Fferm (hectar) | 90 | 32.7[10] | 42 | 118 | 42 |

---

[5] 2011 ac eithrio ble y nodir yn wahanol
[6] Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr Iwerddon, *Fact Sheet on Irish Agriculture*, Hydref 2013
[7] *Ibid* (ffigur 2010)
[8] *Ibid* (ffigur 2012)
[9] *Ibid*
[10] *Ibid* (ffigur 2010)

| | Lloegr | Iwerddon[5] | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwenith (hectar) | 1,856,229 | 98,000[11] | 9,395 | 100,637 | 25,614 |
| Haidd (hectar) | 622,787 | 192,800 | 25,533 | 332,039 | 21,825 |
| Rêp had olew (hectar) | 740,459 | 12,400 | 813 | 336,611 | 5,628 |
| Indrawn (hectar) | 143,066 | Dd/G | 1,937 | 1,913 | 10,802 |
| Tatws (hectar) | 112,150 | 9,000 | 4,150 | 29,536 | 2,935 |
| Gwartheg eidion | 742,260 | 1,063,300 | 279,195 | 452,438 | 226,150 |
| Gwartheg godro | 1,120,536 | 1,055,300 | 285,369 | 182,184 | 274,686 |
| Mamogiaid bridio | 5,445,748 | 2,524,200 | 806,092 | 2,623,656 | 4,169,279 |
| Moch bridio | 351,175 | 147,700 | 38,331 | 31,881 | 4,474 |
| Brwyliaid | 74,271,691 | 72,609,900[12] | 13,459,392 | 9,074,234 | 5,752,630 |

[11] *Ibid* (ar gyfer gwenith, haidd a thatws)
[12] Cyfanswm y dofednod yn 2011. Ar gael yn: Annual Review and Outlook for Agriculture, Food and the Marine 2012/2013. T.31

| | Lloegr | Iwerddon[5] | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Ieir dodwy | 33,508,797 | | 5,287,041 | 5,516,547 | 2,320,561 |
| Cynnyrch gros (£m) | 18,034 | 5,462 (€6,303) | 1,720 | 2,785 | 1,388 |
| Cynnyrch gros fesul fferm (£) | 173,731 | 52,007 (€60,010) | 70,826 | 52,922 | 33,626 |
| Cynnyrch gros fesul hectar (£) | 1922 | 1304 (€1,504) | 1673 | 450 | 794 |
| Gwerth gros ychwanegol ar brisiau sylfaenol 2012 (£m) | 7,226 | 1,505 (€1,737) | 321 | 844 | 214 |
| Cyfanswm y cymorthdaliadau 2012 (£m) | 2,055 | 1.428[13] (€1,790) | 298 | 578 | 332 |
| Cymorthdaliadau fel % o TIFF | 54 | 81[14] | 208 | 91 | 268 |

---

[13] Yn y ddogfen Annual Review and Outlook for Agriculture, Food and the Marine 2012/13 dywedir bod cyfanswm y taliadau uniongyrchol i ffermwyr yn €1,790 miliwn. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys grantiau a phremiymau coedwigo, grantiau buddsoddi ar y fferm a thaliadau i ffermwyr sy'n ymddeol o dan y cynllun ymddeoliad cynnar (tud 10)

[14] Noda'r Factsheet on Irish Agriculture - Hydref 2013, "In 2012, subsidies net of levies, accounted for 73% of operating suprlus. On a per farm basis, the National Farm Survey Estimates for 2012 indicate that average family famr income for 2012 was €25,483, direct payments per farm were on average €20,534, As such, direct pyments comprised 81% of farm income on average for 2012".

| | Lloegr | Iwerddon[5] | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm Net Ffermydd, cyfartaledd ar gyfer pob math o fferm 2011/12 | 53,000 | 20,300 (€25,483) | 27,100 | 35,200 | 29,900 |

Ffynonellau: DEFRA, Agricultural in the United Kingdom 2012; Llywodraeth yr Alban, Economic Report on Scottish Agriculture 2013; Llywodraeth yr Alban, Agricultural Facts and Figures 2013; Yr Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr, Compendium of Irish Agricultural Statistics 2013 (ac eithrio lle y nodir yn wahanol). Troswyd y ffigurau o € i £ gan ddefnyddio cyfradd cyfnewid swyddogol Asiantaeth Taliadau Gwledig y DU ar gyfer y flwyddyn berthnasol


## 2. Gweithredu'r PAC yn ystod 2005-2013 - y Taliad Sengl

Mae'r penderfyniadau gweithredu a wnaethpwyd y tro diwethaf i'r PAC gael ei ddiwygio yn golygu bod Aelod-wladwriaethau a gwledydd y DU mewn sefyllfaoedd gwahanol mewn perthynas â'r cylch diweddaraf o ddiwygiadau.

Yn ystod y cylch diwygio diwethaf, roedd gan Aelod-wladwriaethau ddewis o ran sut i weithredu'r Taliad Sengl. Gallent ddewis ei weithredu yn 2005, 2006 neu 2007. Gallent ddewis gwneud y taliadau naill ai ar sail hanesyddol, ac felly byddent yn seiliedig ar y symiau cyfartalog a dderbyniwyd gan ffermwyr o dan gynlluniau blaenorol yn y cyfnod cyfeirio 2000-02, neu ar sail arwynebedd, a fyddai'n golygu y byddai ffermwyr yn cael taliad ar gyfradd safonol am bob hectar o dir yr oeddent yn ei ffermio. Gallai taliadau arwynebedd amrywio yn dibynnu ar y math o dir.

Gallai taliadau hefyd fod yn gyfran benodedig neu'n gyfran o'r taliadau arwynebedd hanesyddol (hybrid sefydlog), neu gellid cyflwyno taliad arwynebedd yn raddol dros amser, gyda lleihad cyfatebol yn swm y taliad hanesyddol (hybrid dynamig). Yn ogystal, roedd modd cadw rhywfaint o'r cynlluniau cymhorthdal , blaenorol, neu eu "cysylltu" â chynhyrchu. Gallai Aelod-wladwriaethau drefnu cynlluniau newydd hefyd gan ddefnyddio "amlen genedlaethol" o hyd at 10% o daliadau i bob sector neu sector unigol. Rhaid i'r taliadau hyn gyfrannu at yr amgylchedd neu at gynhyrchu bwyd o ansawdd. Mae Aelod-wladwriaethau sydd wedi ymuno â'r UE ers 2004 wedi gweithredu mewn cynllun gwahanol o'r enw Cynllun Taliad Arwynebedd Sengl. Dengys y map isod lle y defnyddiwyd y pum opsiwn gwahanol ar gyfer gweithredu Taliadau Sengl.

**Ffigur 3: Map yn dangos y modelau a ddefnyddiwyd i weithredu'r Taliad Sengl**




[Y Comisiwn Ewropeaidd 2011](#)

Mae tabl 2 (drosodd) yn edrych ar y ffyrdd y dewisodd pedair gwlad y DU ac Iwerddon weithredu'r Taliad Sengl. Dewisodd bob un o'r pum gwlad weithredu Taliadau Sengl yn 2005

**Tabl 2 - Gweithredu'r Taliad Sengl yn y DU ac Iwerddon**

| | Y model a ddefnyddiwyd | Cadw taliadau cysylltiedig? | A ddefnyddiwyd yr Amlen Genedlaethol? |
|---|---|---|---|
| Lloegr | **Hybrid Dynamig**<br>Newidiodd taliadau o sail hanesyddol o 90%: sail arwynebedd o 10% mewn wyth cam i ddod i daliad arwynebedd o 100% erbyn 2012.<br>Defnyddir taliadau gwahanol ar gyfer tri math o dir: rhostir; ucheldir a thir nad yw'n rhostir; tir arall. Mae'r un gyfradd yn berthnasol ar gyfer pob tir ledled y wlad.<br>Bu'r dull hwn yn gymhleth i'w weinyddu a chytunir yn gyffredinol ei fod wedi cyfrannu at fethiannau'r Asiantaeth Taliadau Gwledig a arweiniodd at fethiant i dalu ffermwyr mewn pryd ym mis Mawrth 2006.[15] | Naddo<br>Y Llywodraeth yn ymrwymedig i ddatgysylltu'n llwyr.[16] | Naddo |

[15] Ty'r Cyffredin 107-I, Trydydd Adroddiad pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Ty'r Cyffredin (Sesiwn 2006-07), ***The Rural Payments Agency and the implementation of the Single Payment Scheme***, Mawrth 2006, paragraff 36

[16] *Ibid* para 5

| | Y model a ddefnyddiwyd | Cadw taliadau cysylltiedig? | A ddefnyddiwyd yr Amlen Genedlaethol? |
|---|---|---|---|
| Iwerddon | **Sail hanesyddol** | Naddo | Do. O dan Erthygl 68 o Reoliad 73/2009, ailddyrannodd Iwerddon gyllid i gefnogi cynllun defaid glaswelltir, rhai rhaglenni ansawdd ac effeithiolrwydd llaeth a Rhaglen Cadwraeth Ffermio Burren (sef BurrenLIFE cyn hynny).[17] |

[17] Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Polisïau Mewnol, 2010. ***The Single Payment Scheme after 2013: new approach, new targets*** **tudalen** 43

| | Y model a ddefnyddiwyd | Cadw taliadau cysylltiedig? | A ddefnyddiwyd yr Amlen Genedlaethol? |
|---|---|---|---|
| Gogledd Iwerddon | **Hybrid statig**<br><br>Yr ysgogiad dros fabwysiadu model hybrid statig oedd ystyriaethau’n ymwneud â thegwch - sicrhau bod y rhai a gafodd fudd o gymorth cysylltiedig yn cael budd, i'r un graddau, o gymorth datgysylltiedig yn y dyfodol.<br><br>Mae taliadau'n cynnwys elfennau hanesyddol (78%) a thaliad arwynebedd (22%). Ar gyfer yr elfen hanesyddol, mae'r rhain yn seiliedig ar daliadau yn y cyfnod cyfeirio 2002-2002, ond ar gyfer ffermwyr godro defnyddiwyd y data 2005. Mae'r taliad arwynebedd yn seiliedig ar yr ardal yr hawliwyd ar ei chyfer yn 2005. | Naddo | Naddo |
| Yr Alban | **Sail hanesyddol** | Naddo | Yn y sector eidion. Yr uchafswm a ganiatawyd oedd 10% o daliadau o dan gynlluniau blaenorol y sector eidion a ddefnyddiwyd ar gyfer Cynllun Lloeau Eidion yr Alban. Dyma gynllun taliadau y pen sy'n talu fesul llo eidion. Mae'r symiau a roddir y flwyddyn yn amrywio yn dibynnu ar gyfanswm y lloeau yr hawlir ar eu cyfer yn yr Alban. I gefnogi cynhyrchwyr bach mae taliad uwch am y deg llo cyntaf yr hawlir amdanynt o dan y cynllun. |
| Cymru | **Sail hanesyddol** | Naddo | Naddo |

## 3. Cytundeb Mehefin 2013 ar y PAC ar gyfer 2014-20

Mae'r cylch presennol o ddiwygiadau PAC wedi cael ei drafod dros y pedair blynedd diwethaf. Cyhoeddodd Pwyllgor Amaethyddiaeth Senedd Ewrop adroddiad ar ei fenter ei hun ar ddiwygio'r PAC ym mis Gorffennaf 2010.[18] Dilynwyd hyn gan Ohebiaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd o ran amlinellu ei syniadau gwreiddiol ym mis Tachwedd 2010.[19] Yna cyhoeddodd y Comisiwn gynigion deddfwriaethol ym mis Hydref 2011. [20] Yn dilyn cadarnhau'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (Cytuniad Lisbon), mae cyfreithiau'r UE ar amaethyddiaeth yn amodol ar y weithdrefn ddeddfwriaethol gyffredin. Golyga hyn fod yn rhaid i Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd gytuno ar y ddeddfwriaeth cyn iddi gael ei mabwysiadu.

Un o'r prif ffactorau sy'n gefndir i ddiwygio'r PAC fu'r trafodaethau ar gyllideb yr UE, oherwydd mae'r PAC yn parhau i gyfrif am gyfran uchel iawn o wariant yr UE (tua 40% o gyllideb yr UE yn 2013), ac oherwydd ei bod yn anodd penderfynu sut i wario'r arian nes i chi wybod faint o arian sydd ar gael i'w wario.[21] Daeth y Cyngor Ewropeaidd i gytundeb gwleidyddol ar gyllideb yr UE ar gyfer 2014-20 ym mis Mehefin 2013.[22] Yn ogystal â phennu'r cyllidebau cyffredinol ar gyfer Colofn 1 a Cholofn 2 o'r PAC, manylodd y fargen a gafodd ei tharo rhwng Penaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau ar rai o brif feysydd gwariant y PAC. Ers hynny, mae Senedd Ewrop wedi cymeradwyo'r gyllideb yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Tachwedd 2013 ac adolygiad o'r Fframwaith Ariannol Amlflwydd yn 2016.[23]

Cytunodd Senedd Ewrop ar fandad i Aelodau Senedd Ewrop gan Bwyllgor Amaethyddiaeth y Senedd i drafod gyda'r Cyngor ym mis Mawrth 2013. Yn yr un mis, cytunodd y Cyngor Amaethyddiaeth / Pysgodfeydd ar "ddull gweithredu cyffredinol" ar gynigion i ddiwygio'r PAC. Er bod nifer o feysydd yr oedd y ddau sefydliad yn cytuno arnynt, roedd meysydd eraill lle y cafwyd gwahaniaeth barn. Cynhaliwyd mwy na 40 o drafodaethau 'tair ochr' rhwng negodwyr y Cyngor, y Commission a'r Senedd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2013.[24] Caniataodd y gwaith hwn i'r Cyngor a'r Senedd ddod i gytundeb ar y rhan fwyaf o agweddau ar y diwygiadau presennol i'r PAC yn 2013 - yn unol ag amserlen uchelgeisiol Llywyddiaeth Iwerddon.

---

[18]Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Senedd Ewrop, ***Report on the future of Common Agricultural Policy after 2013,*** 21 Mehefin 2010.
[19]Y Comisiwn Ewropeaidd, ***The CAP towards 2020: Meeting the food, natural resources and territorial challenges of the future,*** 18 Tachwedd 2010.
[20] Y Comisiwn Ewropeaidd, ***Legal proposals for the CAP after 2013***, 12 Hydref 2011.
[21] Gwefan y Comisiwn Ewropeaidd, Y dudalen ar y rhaglen ariannol a'r gyllideb, ***Budget 2013 in figures*** fel ar 19 Tachwedd 2013
[22]Uchafbwyntiau Ystafell Newyddion y Comisiwn Ewropeaidd, ***Multi Annual Financial Framework 2014-2020*** fel ar 13 Tachwedd 2013
[23] Datganiad i'r Wasg y Comisiwn Ewropeaidd, ***One trillion euro to invest in Europe's future-the EU's budget,*** 19 Tachwedd 2013
[24] Diweddariad: *Most CAP Reforms for 2014-2020 agreed, AgraEurope*, 27 Mehefin 2013

Daeth y trafodaethau rhwng y tair ochr i gytundeb gwleidyddol ynghylch yr ychydig faterion a oedd yn weddill (yng nghyd-destun y Fframwaith Ariannol Amlflwydd) ar 24 Medi 2013. Y gobaith yw y bydd modd mabwysiadu testunau cyfreithiol yn ffurfiol erbyn diwedd 2013.[25] Bydd hyn wedyn yn caniatáu i'r Deddfau Gweithredu a Dirprwyo gael eu cwblhau yn 2014 a fydd yn cynnwys rheolau manylach ar weithredu.

Mae'r tabl drosodd yn dangos beth y cytunwyd arno ym mis Mehefin a mis Medi 2013. Mae datganiad i'r wasg gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 24 Hydref 2013 yn rhoi crynodeb o'r cytundeb yn gyffredinol.[26]

[25] Datganiad i'r Wasg y Comisiwn Ewropeaidd, ***Reform of the Common Agricultural Policy (CAP): Political agreement reached on last remaining points,*** 24 Medi 2013.
[26] Y Comisiwn Ewropeaidd, ***MEMO13/937 25/10/2013 CAP reform- an explanation of the main elements,*** 25 October 2013

**Tabl 3 - Crynodeb o Gytundeb Mehefin a Medi 2013 ar Ddiwygio'r PAC**

| **Yr Eitemau Colofn 1 y cytunwyd arnynt ym mis Mehefin 2013**[27] | |
|---|---|
| **Cyllideb Colofn 1** | Y gyllideb ar gyfer Piler 1 fydd €277.8 biliwn ar gyfer 2014-20 (ym mhrisiau 2011)[28], sef 77% o gyfanswm y gyllideb PAC (toriad o 14% o'i gymharu â 2007-13).[29] Mae'r "terfynau uchaf cenedlaethol", hynny yw, y dyraniadau o gyllideb Piler 1 rhwng Aelod-wladwriaethau, wedi eu cyhoeddi. Y newid mewn dyraniad taliadau uniongyrchol i'r DU ac Iwerddon o'i gymharu â'r swm a gafwyd yn y Fframwaith Ariannol Amlflwydd diwethaf yw -2.5% a -3.3%, yn y drefn honno. |
| **Gweithredu'r Polisi yn Rhanbarthol** | Caiff pedair gwlad y DU eu dosbarthu'n rhanbarthau at ddibenion yr UE. Gellir gweithredu pob elfen o'r PAC diwygiedig yn rhanbarthol, felly yn y DU, gall Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban wneud penderfyniadau gwahanol. Ar gyfer "Aelod-wladwriaeth" darllener hefyd "rhanbarth" yn y tabl. |
| **Cydgyfeirio Mewnol** | Rhaid i Aelod-wladwriaethau sydd wedi defnyddio sail hanesyddol ar gyfer y Taliad Sengl ddechrau symud tuag at daliad arwynebedd. Mae Aelod-wladwriaethau yw gyfrifol am ddyfeisio eu cynlluniau eu hunain ar gyfer taliadau arwynebedd e.e. pennu cyfraddau gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o dir. Gall Aelod-wladwriaethau nad oes ganddynt daliadau arwynebedd ar hyn o bryd naill eu cyflwyno'n llawn yn 2015, neu'u cyflwyno mewn camau cyfartal er mwyn iddynt gael eu cyflwyno'n llawn erbyn 2019. Neu, fel rhanddirymiad, gallant gyflwyno taliadau arwynebedd yn rhannol. Mae'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol: i ffermwyr sy'n cael llai na 90% o'r taliad cyfartalog ar hyn o bryd gau'r bwlch rhwng eu taliad a 90% o'r cyfartaledd draean erbyn 2019; yn ogystal rhaid i bob ffermwr dderbyn o leiaf 60% o'r cyfartaledd erbyn 2019; bydd taliadau i ffermwyr sy'n cael mwy na'r cyfartaledd yn lleihau i ariannu hyn; gall Aelod-wladwriaethau ddewis cyfyngu ar y gostyngiadau mewn taliadau i 30% o'r hyn y mae ffermwyr yn ei dderbyn ar hyn o bryd, a gall hyn gymryd blaenoriaeth dros gynyddu taliadau i ffermwyr sy'n cael taliadau sy'n is na'r cyfartaledd. |

[27] Ffynonellau: Agrafacts 25, 26 a 28 Mehefin 2013; Datganiad i'r Wasg y Comisiwn Ewropeaidd, ***CAP Reform – an explanation of the main elements***, 26 Mehefin 2013; Gwefan **CAPReform.eu** ; Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, ***Consolidated draft direct payments regulation***, 6 Medi 2013 – dengys y ddogfen gynnig deddfwriaethol y Comisiwn wedi'i ddiwygio gyda'r newidiadau a gytunwyd gan y trafodaethau rhwng y tair ochr.

[28] Y Cyngor Ewropeaidd (EUCO 37/13), ***Casgliadau ynhylch y Fframwaith Ariannol Amlflwydd***, 8 Chwefror 2013

[29] Mae hyn wedi ei seilio ar ffigur y Comisiwn Ewropeaidd o €322 biliwn ar gyfer 2007-13, ym mhrisiau 2011 a nodwyd yn nogfen y Comisiwn Ewropeaidd, ***Fframwaith Ariannol Amlflwydd 2014-2020***, 30 Mehefin 2011

| Yr Eitemau Colofn 1 y cytunwyd arnynt ym mis Mehefin 2013[27] | |
|---|---|
| **Trawsgydymffurfio** | Er mwyn cael taliadau uniongyrchol bydd yn rhaid i ffermwyr barhau i gydymffurfio ag ystod o gyfreithiau'r UE ar fioamrywiaeth, lles anifeiliaid, a'r amgylchedd dŵr, a chadw eu tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da |
| **Ffermwyr actif** | Gall Aelod-wladwriaethau bennu gofynion o ran isafswm gweithgarwch (e.e. isafswm cyfradd stocio) ar gyfer tir sy'n naturiol mewn cyflwr sy'n addas ar gyfer pori neu dyfu cnydau<br><br>Mae "rhestr negyddol" o weithgareddau nad ydynt yn gymwys ar gyfer taliadau'r PAC wedi cael ei llunio sy'n berthnasol i'r UE cyfan. Mae hyn yn cynnwys meysydd awyr, gwasanaethau rheilffordd, gweithfeydd dŵr, eiddo tiriog a meysydd chwaraeon. Gall Aelod-wladwriaethau ychwanegu at y rhestr hon. |
| **Taliad gwyrdd** | Bydd 30% o gyllideb Colofn 1 yn cael ei ddefnyddio ar gyfer taliad gwyrdd. Gall Aelod-wladwriaethau ddewis sut i weithredu'r taliad gwyrdd, naill fel cyfradd safonol fesul hectar, wedi'i chyfrifo drwy rannu 30% o derfyn y taliad uniongyrchol â chyfanswm arwynebedd y tir sy'n cael ei hawlio o dan y Cynllun Taliad Sylfaenol o fewn y rhanbarth bob blwyddyn, neu byddai'r taliad gwyrdd yn 30% o'r hawliadau am daliadau sy'n cael eu hawlio gan bob ffermwr bob blwyddyn.<br>Bydd yn rhaid i ffermwyr gydymffurfio â thri maen prawf i gael y taliad (lle y bo'n berthnasol):<br>• Rhaid i ffermwyr gyda rhwng 15 a 30 hectar o dir âr dyfu o leiaf ddau gnwd âr, ac ni ddylai unrhyw gnwd gwmpasu mwy na 75% o gyfanswm yr arwynebedd. Rhaid i ffermwyr â mwy na 30 hectar o dir âr dyfu tri chnwd, ac ni ddylai un cnwd gwmpasu mwy na 75% o'r tir ac ni ddylai dau gnwd gwmpasu mwy na 95% o'r tir. Caiff cnydau sy'n cael eu hau yn y gaeaf a'r gwanwyn eu cyfrif fel cnydau gwahanol.<br>• Gall ffermwyr droi 5% ar y mwyaf o dir pori yn dir âr. Diffinnir tir pori parhaol yn dir sydd wedi bod yn laswelltir ers 5 mlynedd neu fwy. Nid oes angen cymhwyso hyn ar lefel fferm os oes mwy na 5% o drosiad ar lefel genedlaethol.<br>• Rhaid i ffermwyr â mwy na 15 hectar o dir âr ddefnyddio o leiaf 5% fel ardal â ffocws ecolegol erbyn 2015, gan godi i 7% erbyn 2017 (yn amodol ar adolygiad). Gall ymylon caeau, gwrychoedd, coetir, tir braenar, nodweddion tirwedd (e.e. safleoedd archaeolegol, waliau cerrig), lleiniau clustogi a phyllau gyfrif tuag at ardal â ffocws ecolegol. |

| Yr Eitemau Colofn 1 y cytunwyd arnynt ym mis Mehefin 2013[27] | |
|---|---|
| | Fel dewis amgen i'r gofynion uchod, gall Aelod-wladwriaethau ddewis mabwysiadu cynllun(iau) ardystio cenedlaethol sy'n cynnwys arferion cyfatebol ac ychwanegol sy'n cynnig rhywfaint o hyblygrwydd o ran y gofynion gwyrdd (yn y trafodaethau dadleuodd llywodraeth y DU o blaid yr hyblygrwydd hwn).<br>Bydd ffermwyr organig a chyfranogwyr yng Nghynllun y ffermwyr bach yn esempt o'r gofynion gwyrdd.<br>Bydd ffermwyr na fyddant yn cydymffurfio â'r gofynion gwyrdd yn colli eu taliad gwyrdd. O 2017 ymlaen bydd ffermwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion gwyrdd yn colli swm ychwanegol sy'n cyfateb i 20% o'u taliad gwyrdd, gan godi i 25% yn 2018 a blynyddoedd dilynol. |
| **Talu ddwywaith am yr un peth** | Mae perygl y gall ffermwyr sy'n rhan o gynlluniau amaeth-amgylchedd ac sy'n cael taliad gwyrdd gael eu talu ddwywaith am wneud yr un peth. Caiff taliadau o gynlluniau amaeth-amgylchedd am fesurau sy'n cyfateb i'r gofynion gwyrdd eu lleihau i osgoi'r risg o dalu ddwywaith am yr un peth. |
| **Y gronfa genedlaethol** | Rhaid i Aelod-wladwriaethau greu cronfa genedlaethol a gaiff ei defnyddio i ddarparu taliadau i newydd-ddyfodiaid. Gellir defnyddio hyd at 3% o'r terfyn cenedlaethol ar gyfer hyn. Gellir ychwanegu at y gronfa hefyd drwy frigdorri hawliau a drosglwyddir heb dir. |
| **Swm atodol i ffermwyr ifanc** | Rhaid i newydd-ddyfodiaid o dan 40 oed gael swm atodol o 25% ar eu taliadau fesul hectar am hyd at 5 mlynedd neu nes iddynt gyrraedd 40 oed hyd at uchafswm o 90 hectar. Gellir defnyddio hyd at 2% o'r terfyn cenedlaethol ar gyfer taliadau atodol i ffermwyr ifanc. |
| **Cynllun y ffermwyr bach** | Gall Aelod-wladwriaethau ddewis cyflwyno cynllun taliadau 'wedi'i symleiddio' i ffermwyr fel dewis amgen i daliadau uniongyrchol a elwir yn Gynllun y Ffermwyr Bach. Y taliad blynyddol uchaf i ffermwyr a fyddai'n rhan o'r cynllun hwn fydd €1,250 y flwyddyn. Byddai cyfranogwyr yn esempt o'r gofynion gwyrdd a rhai o'r gofynion trawsgydymffurfio. Gellir defnyddio hyd at 10% o'r terfyn cenedlaethol ar gyfer Cynllun y Ffermwyr Bach. |

| Yr Eitemau Colofn 1 y cytunwyd arnynt ym mis Mehefin 2013[27] | |
|---|---|
| **Cymorth cysylltiedig** | Gallai Aelod-wladwriaethau sy'n gwario llai na 5% o'u terfyn cenedlaethol ar daliadau cysylltiedig ar hyn o bryd (y DU) gynyddu hyn i 8%. Gallai Aelod-wladwriaethau sy'n defnyddio 5-10% ar hyn o bryd gynyddu hyn i 13%. Gallai Aelod-wladwriaethau sy'n defnyddio >10% gynyddu i >13% gyda chymeradwyaeth y Comisiwn. |
| **Swm atodol ar gyfer yr hectarau cyntaf** | Gall Aelod-wladwriaethau ddefnyddio 30% neu fwy o'u terfyn cenedlaethol ar gyfer taliadau arwynebedd ar gyfer y 30 hectar cyntaf sy'n cael ei ffermio (neu hyd at fferm o faint cyfartalog yn yr Aelod-wladwriaethau, sef 54 hectar yn y DU a 32 hectar yn Iwerddon). Gall y taliad fesul hectar fod yn unrhyw swm hyd 65% o'r taliad cyfartalog cenedlaethol fesul hectar yn yr Aelod-wladwriaethau ac fe'i cymhwysir ar 'gyfradd safonol' beth bynnag fo gwerth hawliau'r ffermwr. |
| **Swm atodol ar gyfer Ardal Llai Ffafriol / Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol** | Gall Aelod-wladwriaethau wneud taliadau ychwanegol i ffermwyr yn yr Ardaloedd Llai Ffafriol. Gallant ddefnyddio hyd at 5% o'u terfyn cenedlaethol ar gyfer hyn. |
| **Cynllun y taliad sylfaenol** | Bydd Aelod-wladwriaethau yn dosbarthu rhan o'u cyllideb Colofn 1 drwy gynllun y taliad sylfaenol. Bydd Aelod-wladwriaethau sydd wedi ymuno â'r UE ers 2004 yn parhau â'r Cynllun Taliad Arwynebedd Sengl tan 2020. Y swm a fydd ar gael ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol fydd y terfyn cenedlaethol llai y taliad gwyrdd (30% o'r terfyn cenedlaethol) a didyniadau eraill:<br>**Dewisol:** Cynllun y Ffermwyr Bach (10%); trosglwyddiadau i Golofn 2 (<15%), swm atodol Ardal â Chyfyngiadau naturiol (5%); swm atodol ar gyfer hectarau cyntaf (30%);<br>**Gofynnol:** creu cronfa genedlaethol (<3%); taliad atodol i ffermwyr ifanc (<2%); |

| Yr Eitemau Colofn 1 y cytunwyd arnynt ym mis Mehefin 2013[27] | |
|---|---|
| | Er mwyn cael y taliad sylfaenol yn 2015 rhaid i ffermwyr naill ai fod yn derbyn Taliadau Sengl yn 2013, neu rhaid iddynt allu dangos eu bod yn ymwneud â gweithgarwch amaethyddol yn 2013.<br>Gall Aelod-wladwriaethau a allai weld cynnydd mawr yn yr ardal gymwys gyfyngu'r cynnydd i naill ai 135% neu 145% o'r ardal yr hawliwyd ar ei chyfer yn 2009 a lleihau'r taliadau yn unol â hynny. |
| **Cyhoeddi data - buddiolwyr PAC** | Cyhoeddwyd data ar y rhai a gafodd gymorth gan y PAC yn 2008 a 2009, ond yn dilyn achos llys yn 2010, cafodd data am daliadau i unigolion ei dynnu'n ôl ac roedd data a gyhoeddwyd am daliadau ar gyfer 2010-12 wedi'i gysylltu â rhagddodiad cod post yn lle hynny.[30] Fel rhan o'r broses diwygio'r PAC bydd Aelod-wladwriaethau yn cyhoeddi data ar bob buddiolwr PAC unwaith eto, ac eithrio ffermydd sy'n gymwys i ymuno â Chynllun y Ffermwyr Bach. |

| Eitemau Colofn 1 y cytunwyd arnynt ym mis Medi 2013[31] | |
|---|---|
| **Capio taliadau a lleihad cyson fesul blwyddyn yn y cymhorthdal** | Yn wreiddiol cynigiodd y Comisiwn Ewropeaidd y dylid capio'r taliadau uniongyrchol. Fel rhan o gyfaddawd cyffredinol, cytunodd Gweinidogion Amaethyddiaeth Ewrop ar ddarpariaeth a oedd yn caniatáu naill ai ddull ailddosbarthu a/neu ddull lleihau i leihau'r taliadau a wneir i hawlwyr sy'n cael y taliadau mwyaf.<br>Caiff taliadau sylfaenol neu daliadau arwynebedd sengl uniongyrchol sy'n fwy na €150,000 i fferm unigol (ac eithrio taliadau Gwyrdd) eu lleihau o leiaf 5%. Er mwyn ystyried cyflogaeth, gellir didynnu costau cyflogau cyn gwneud y cyfrifiad.  Nid oes angen i'r gostyngiad hwn fod yn berthnasol i Aelod-wladwriaethau sy'n cymhwyso'r "taliad ailddosbarthu" lle y caiff o leiaf 5% a hyd at 30% o'u hamlen genedlaethol ei ddal yn ôl i'w ailddosbarthu ar gyfer hectarau cyntaf pob fferm.<br>Mae'r arian a gaiff ei "arbed" o dan y dull hwn yn aros yn yr Aelod-wladwriaeth ac yn mynd i Golofn 2 a gellir ei defnyddio heb unrhyw ofynion cydariannu. |

[30] Parhawyd i gyhoeddi data ar gyfer 2010, 2011 a 2012 yn y DU ar faint y taliadau ond os oedd y buddiolwyr yn berson naturiol (yn hytrach na busnes) cafodd ei enw a'i gyfeiriad eu golygu a dim ond rhagddodiad eu post cod a nodwyd.
[31] Datganiad i'r Wasg y Comisiwn Ewropeaidd, ***Reform of the Common Agricultural Policy (CAP): Political agreement reached on last remaining points***, 24 Medi 2013.

| | |
|---|---|
| **Cydgyfeirio allanol** | Caiff yr amlenni cenedlaethol ar gyfer taliadau uniongyrchol ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth eu haddasu'n raddol er mwyn i'r Aelod-wladwriaethau hynny â thaliadau uniongyrchol fesul hectar sy'n llai na 90% o gyfartaledd yr UE gau traean o'r blwch rhwng lefel bresennol eu taliadau uniongyrchol a 90% o gyfartaledd yr UE. Gwarentir y bydd pob Aelod-wladwriaeth yn cyrraedd isafswm erbyn 2019. Caiff y symiau sydd ar gael i Aelod-wladwriaethau eraill sy'n cael mwy na'r symiau cyfartalog ei addasu'n unol â hynny. |
| **Trosglwyddo arian rhwng colofnau** | Bydd yn bosibl i Aelod-wladwriaethau drosglwyddo hyd at 15% o Golofn 1 i Golofn 2. Ni fydd angen i'r symiau hyn gael eu cydariannu. Bydd gan Aelod-wladwriaethau yr opsiwn o drosglwyddo hyd at 15% o Golofn 2 i Golofn 1, neu hyd at 25% o ran yr Aelod-wladwriaethau hynny sy'n cael llai na 90% o gyfartaledd yr UE ar gyfer taliadau uniongyrchol. |
| **COLOFN 2** | |
| **Cyllideb Colofn 2** | Bydd y gyllideb ar gyfer Colofn 2 ar gyfer 2014-20 yn €84.9 biliwn (ar brisiau 2011), sef 23% o gyfanswm cyllideb PAC (toriad o 11% o gymharu â 2007-13) |
| **Opsiynau gwario** | Mae'r opsiynau gwario yn debyg i'r rhai a oedd ar gael o 2007-13 ar y cyfan. Maent bellach wedi'u grwpio'n chwe "maes blaenoriaeth" o gymharu â'r pedair echelin flaenorol. Rhaid i isafswm o 30% o gyllidebau Colofn 2 gael eu gwario ar fesurau amaeth-amgylchedd / hinsawdd / coedwigaeth / Natura 2000 / Ardaloedd Llai Ffafriol, a rhaid gwario isafswm o 5% ar raglenni LEADER (Y Cysylltiadau rhwng yr Economi Wledig a Chamau Datblygu)[32]<br><br>(Nid yw swm yr arian cyfatebol y bydd yn rhaid i Aelod-wladwriaethau eu darparu ar gyfer pob opsiwn wedi'i gytuno â'r Senedd a'r Cyngor eto- gweler isod) |

[32] Mae'r rhaglen LEADER yn un o'r pedair echelin ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013.

| | |
|---|---|
| **Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol (Ardaloedd Llai Ffafriol cyn hyn)** | Caiff Ardaloedd Llai Ffafriol eu hailddiffinio fel Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol. Bydd y diffiniad yn seiliedig ar 8 maen prawf bioffisegol. Rhaid i o leiaf 60% o arwynebedd fferm gymhwyso. Rhaid cwblhau'r ailddiffiniad erbyn 2019, ond gall Aelod-wladwriaethau ddewis ei wneud yn gynharach. |

| **Eitemau Colofn 2 y cytunwyd arnynt ym mis Medi 2013**[33] | |
|---|---|
| **Dyraniadau Aelod-wladwriaethau** | Amlinellir y dyraniadau Datblygu Gwledig fesul blwyddyn fesul Aelod-wladwriaeth ar gyfer 2014-20 yn Rheoliad Datblygu Gwledig yr UE. Dyrannwyd cyfanswm o €2.19 biliwn i Iwerddon a €2.58 biliwn i'r DU (ar brisiau cyfredol). Mae'r symiau hyn yn cynnwys amcangyfrif o'r arian a gaiff ei drosglwyddo i ddatblygu gwledig yn deillio o gymhwyso'r gostyngiad o 5% ar daliadau sy'n uwch na €150,000.[34] |
| **Cyfraddau cydariannu** | Uchafswm cyfraddau cydariannu'r UE fydd hyd at 85% mewn ardaloedd llai datblygedig, yr ardaloedd pellaf a'r ynysoedd Egeaidd lleiaf, 75% mewn rhanbarthau trawsnewid, 63% mewn rhanbarthau trawsnewid eraill a 53% mewn rhanbarthau eraill ar gyfer y rhan fwyaf o daliadau, ond gall fod yn uwch ar gyfer y mesurau sy'n cefnogi trosglwyddo gwybodaeth, cydweithredu, sefydlu grwpiau cynhyrchu a sefydliadau a grantiau gosod i ffermwyr ifanc, yn ogystal â phrosiectau LEADER (datblygu gwledig) ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd o dan amrywiol fesurau. |

[33] *Ibid*
[34] Cyngor yr Undeb Ewropeaidd. ***Consolidated draft Rural Development Regulation,*** 26 Medi 2013, t.171-72

# 4. Yr ymateb i'r Cytundeb

## *4.1. Lloegr*

### Llywodraeth y DU

Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y cytundeb PAC newydd yn dderbyniol ac yn welliant ar gynigion gwreiddiol y Comisiwn Ewropeaidd ond mae'n teimlo y gellid bod wedi gwneud rhagor i ddiwygio'r PAC.[35] Prif nodau'r DU ar gyfer y trafodaethau ar ddiwygio'r PAC oedd: cynyddu dibyniaeth, cyfeiriadedd y farchnad a gallu cystadleuol amaethyddiaeth yr UE, gwella gallu'r PAC i sicrhau canlyniadau amgylcheddol; a symleiddio'r PAC i ffermwyr ac awdurdodau.[36] Mewn llythyr at Aelodau Seneddol ac Arglwyddi, dywedodd Owen Paterson yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig fod y DU yn gweithio gyda'i chynghreiriaid i atal llu o gynigion a fyddai'n gam yn ôl ac a fyddai'n andwyol i ffermwyr y DU. [37]

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi cydnabod bod rhai agweddau ar y PAC newydd yn fwy cymhleth na'r agweddau sy'n cael eu disodli. Dywedodd lle roedd dewisiadau gweithredu domestig ar gael i'r DU, y byddai'n ystyried symlrwydd, fforddiadwyedd ac effeithiolrwydd.[38] Ceisiwyd barn ym mis Medi 2013 ynghylch y ffordd orau o weithredu diwygio'r PAC er mwyn iddo fod yn syml i ffermwyr fel rhan o'r adolygiad o fiwrocratiaeth ar gyfer y sector ffermio a choedwigaeth[39]. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) bellach yn ymgynghori ar weithredu diwygio'r PAC yn Lloegr tan 28 Tachwedd 2013 (gweler Adran 7).

### Rhanddeiliaid

Mynegodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ei siom gyda'r cytundeb terfynol ar y PAC gan ei fod yn pryderu y byddai'r hyblygrwydd a roddir i Lywodraeth y DU yn cosbi ffermwyr Lloegr o gymharu â ffermwyr Ewrop. Mae hyn oherwydd brwydfrydedd y Llywodraeth dros defnyddio ei hopsiynau ar gyfer modiwleiddio gwirfoddol i leihau taliadau uniongyrchol ac i gynyddu cymorth ar gyfer cynlluniau datblygu gwledig ac amaeth-amgylchedd yn Lloegr.[40]

Fodd bynnag, mae llawer o sefydliadau amgylcheddol yn gryf o blaid trosglwyddiadau o'r fath, gan gynnwys yr RSPB sydd bellach yn pwyso ar

---

[35] Polisi .GOV.UK: ***Reforming the Common Agricultural Policy to ensure a fair deal for farmers, consumers and tax payers,*** **diweddarwyd** ar 12 Awst 2013 darllenwyd ar 24 Medi 2013 a llythyr "Annwyl Gyfaill" oddi wrth y Gwir Anrhydeddus Owen Paterson AS, Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig at ASau ac Arglwyddi , 4 Gorffenaf 2013

[36] **Dadl Tŷ'r Arglwyddi 30 Mehefin 2013 c.1634**

[37] Llythyr "Annwyl Gyfaill" gan y Gwir Anrhydeddus Owen Paterson AS, Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ASau ac Arglwyddi, 4 Gorffennaf 2013

[38] Ibid

[39] **Defra launches fresh red-tape drive**, *Farmers Weekly*, 17 Gorffennaf 2013

[40] NFU Bulletin, ***Defra CAP plans will damage English farming***, 26 Mehefin 2013

Weinyddiaethau Datganoledig i wneud ymrwymiadau tebyg.[41] Mae cynghrair o 18 sefydliad ffermio ac amgylcheddol, gan gynnwys Ffederasiwn Tyddynwyr yr Alban, Ffederasiwn Ucheldir De-ddwyrain Lloegr a'r Sefydliad Tir Comin, hefyd wedi dadlau y dylai cyllideb PAC y DU flaenoriaethu gwariant ar Raglenni Datblygu Gwledig wedi'u targedu er mwyn cefnogi systemau ffermio sydd o Werth Mawr i Fyd Natur.[42]

Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr wedi bod yn bryderus iawn y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi sêl ei  bendith ar y gofynion gwyrdd a bod rhai ohonynt, fel y gofyniad i dyfu tri chnwd, yn anymarferol. Mae papur ymgynghori Defra, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013 **ar weithredu diwygiadau'r PAC yn Lloegr**, yn cadarnhau bod Llywodraeth y DU yn bwriadu cadw at y mesurau a amlinellir yn y Rheoliad taliadau uniongyrchol a pheidio â gweithredu'r gofynion gwyrdd drwy Gynllun Ardystio.[43] Mae hyn yn osgoi'r feirniadaeth ynghylch rhoi sêl bendith ond mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn awyddus i gael opsiwn amgen ar gyfer arallgyfeirio ar draws gwahanol feysydd er gwaetha'r ffaith bod y Comisiwn Ewropeaidd yn nodi'n glir nad oes hyblygrwydd yn y gofyniad hwn.

Yn y cyfamser, mae llawer o grwpiau amgylcheddol yn gweld y mesurau gwyrdd newydd fel cyfle a gollwyd gan eu bod wedi'u glastwreiddio o gymharu â dyheadau gwreiddiol y Comisiwn i wneud gofynion amgylcheddol yn ganolog i daliadau PAC.[44]

Ar hyn o bryd mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin yn cynnal ymchwiliad ar weithredu diwygio'r PAC ac mae'n bwriadu adrodd ar ei ganfyddiadau mewn pryd i gyfrannu at Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar fesurau gweithredu. [45]

[41] Datganiad i'r Wasg RSPB , ***Secretary of State makes the right decision on crisis facing English farmland wildlife,*** 19 Gorffennaf 2013
[42] Datganiad i'r Wasg Cymdeithas Cominwyr Cumbria, ***New Coalition to campaign for High Nature Value Farming*****,** 6 Mehefin 2013
[43] Defra, ***Implementation of CAP reform in England: Consultation document,*** Hydref 2013, Adran 3
[44]Gweler er enghraifft, Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad,  ***Funding for more sustainable agriculture: modulation and co-financing***, Awst 2013
[45]Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Ty'r Cyffredin, ***New inquiry launched on CAP implementation 2014-2020,*** 18 Gorffennaf 2013

**Dolenni i ragor o wybodaeth**

- Newyddion Ar Lein Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, *Make sure English farmers are not shafted,* 17 Gorffennaf 2013
- Tystiolaeth lafar gan Peter Kendall (Llywydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr), Martin Haworth (Cyfarwyddwr Polisi, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr) a David Baldock (Cyfarwyddwr Gweithredol, Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewrop) i Bwyllgor Dethol yr UE Tŷ'r Arglwyddi: Amaethyddiaeth Pysgodfeydd, yr Amgylchedd ac Ynni (Is-bwyllgor 3) ynghylch ei ymchwiliad ar ddiwygio'r PAC, 11 Medi 2013
- RSPB, *Farming reform signals tought times ahead for wildlife* , 26 Mehefin 2013
- Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (y mae ei aelodau'n cynnwys Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear ac Aelodau Cyngor Diogelu Lloegr Wledig) *Briefing for MEPs Funding for more sustainable agriculture: modulation and co-financing,* Awst 2013

## *4.2. Gogledd Iwerddon*

**Ymateb y Gweinidog**

Croesawodd Michelle O'Neill, Gweinidog yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, y cytundeb amlinellol ar ddiwygio'r PAC y daethpwyd iddo ym mis Mehefin 2013.[46] Roedd y Gweinidog yn credu bod y cytundeb amlinellol yn cyd-fynd â llawer o'r addasiadau yr oedd yn awyddus i'w gweld yn y cynigion gwreiddiol er mwyn diwallu anghenion diwydiant lleol a rhanddeiliaid gwledig eraill yn well.

Nododd y Gweinidog yr elfennau canlynol fel nodweddion cadarnhaol i Ogledd Iwerddon:

- O gofio bod y cymorth yn newid i system cyfradd safonol, bydd y cytundeb yn caniatáu i'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig gynllunio i symud yn drefnus tuag at gymorth ar gyfradd safonol a fydd yn cydbwyso amrywiol fuddiannau yn y sector.
- Mae'r trefniadau gwyrdd yn llawer mwy addas i anghenion amaethyddiaeth sy'n seiliedig ar laswellt. Mae'r gallu i fonitro glaswelltir parhaol ar lefel ranbarthol, yn hytrach nag ar lefel ffermwr unigol fel y bwriadwyd yn wreiddiol, yn osgoi baich biwrocrataidd diangen ar gyfer ffermwyr a gweinyddwyr;

---

[46] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (Newyddion) ***CAP reform deal struck in Luxembourg***, 26 Mehefin 2013

- Mae'r cynnydd yn y trothwyon ar gyfer arallgyfeirio cnydau ac Ardaloedd â Ffocws Ecolegol, yn llawer mwy addas i amgylchiadau amaethyddiaeth glaswelltir;
- Y gallu i wneud penderfyniadau gweithredu ar lefel leol, sy'n golygu y gellir gwneud penderfyniadau'n lleol heb wrthdaro â phenderfyniadau a wneir mewn rhanbarthau eraill ac i'r gwrthwyneb, sydd hefyd yn galluogi'r gwaith o weithredu'r fframwaith cymorth i gael ei addasu i ddiwallu'r cydbwysedd o anghenion lleol.

Er gwaetha'r 'enillion' hyn, mynegodd y Gweinidog hefyd ei siom ynghylch y methiant i gyfyngu ar y cymorth amaethyddol i ffermwyr sy'n wirioneddol weithgar. Yn ogystal, dywedodd y Gweinidog O'Neill ei bod hefyd yn bwriadu cynnal ymarferion ymgynghori cyhoeddus ar yr opsiynau polisi ar gyfer Colofn 1 (Taliadau Uniongyrchol) a Cholofn 2 (y Rhaglen Datblygu Gwledig) cyn i'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wneud unrhyw benderfyniadau terfynol ar weithredu.

**Rhanddeiliaid**

Yn gyffredinol, mae'r cytundeb PAC terfynol wedi cael ei weld fel bargen well i ffermwyr Gogledd Iwerddon na'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol. Croesawodd Undeb Amaethwyr Ulster yr hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel cytundeb 'ymarferol' i Ogledd Iwerddon a fyddai'n *sicrhau bod ei ffermwyr yn parhau i gael cymorth ariannol hanfodol ar adeg pan mae'r farchnad yn methu.'*[47]

Gan adeiladu ar y themâu a nodwyd gan y Gweinidog O'Neill, mae Undeb Amaethwyr Ulster ac eraill wedi croesawu'r newidiadau i'r cynigion gwreiddiol ym meysydd pontio i gymorth uniongyrchol, taliadau gwyrdd, aredig priddoedd sy'n gyfoethog o ran carbon a'r hyblygrwydd rhanbarthol sy'n rhan o'r cytundeb. Mae llawer o ffermwyr fodd bynnag yn dal i gredu bod angen gwneud rhagor o ran y ffermwr actif i sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i'r rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu. Mae Undeb Amaethwyr Ulster a sefydliadau ffermio eraill hefyd wedi parhau i fynegi pryder ynghylch y gostyngiad yng nghyllideb Colofn 1, ac mae'r posibilrwydd o drosglwyddo arian o Golofn 1 i Golofn 2 yn fater sydd wedi ennyn cryn wrthwynebiad.

[47] Undeb Amaethwyr Ulster, ***Finalised CAP deal workable for N.Ireland,*** 27 June 2013

O safbwynt amgylcheddol, mae cyrff cynrychioliadol lleol wedi mynegi siom yn gyffredinol gyda'r cytundeb terfynol ar y PAC oherwydd yr hyn a welant fel glastwreiddio mesurau diogelu/gwella'r amgylchedd. Yn ogystal, ac yn fwy penodol, mynegwyd pryder ynghylch y gostyngiad sylweddol tebygol yng nghyllideb Colofn 2 yng Ngogledd Iwerddon o ran yr effaith bosibl ar gynlluniau amaeth-amgylchedd. Mae'r potensial ar gyfer trosglwyddo arian o Golofn 2 i Golofn 1 hefyd wedi codi pryderon ymysg rhai o'r sefydliadau amgylcheddol, sy'n credu y byddai trosglwyddiad o'r fath yn israddio ymhellach allu Colofn 2 i ddiogelu/gwella'r amgylchedd.

**Dolenni i Ragor o Wybodaeth**

- Cyswllt Amgylchedd Gogledd Iwerddon, Tudalennau ar y Polisi Amaethyddol
- Undeb Amaethwyr Ulster
- Cymdeithas Cynhyrchwyr Amaethyddol Gogledd Iwerddon

## *4.3. Yr Alban*

Gan siarad mewn dadl yn Senedd yr Alban ar 3 Hydref 2013 rhoddodd Richard Lochhead ASE, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Amgylchedd yn Llywodraeth yr Alban, asesiad o sut yr oedd blaenoriaethau Llywodraeth yr Alban yn cael eu hadlewyrchu yn y cytundeb ar ddiwygio'r PAC.[48] Dywedodd y byddai'r cytundeb yn caniatáu i'r Llywodraeth leihau biwrocratiaeth; atal ffermwyr sliperi; darparu cymorth i newydd-ddyfodiaid; a mynd i'r afael â lleihad yn nifer y da byw drwy gymorth cysylltiedig – roedd y rhain oll yn bethau yr oedd y Llywodraeth ei eisiau. O ran taliadau gwyrdd, esboniodd fod y newidiadau i'r cynigion gwreiddiol bellach yn golygu bod tua 5,000 o ffermwyr âr yn yr Alban eisoes yn cydymffurfio â'r rheolau, ac mai dim ond 800 o ffermwyr fyddai'n rhaid iddynt blannu cnwd ychwanegol er mwyn cydymffurfio.

Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet siom gyda'r canlyniad mewn perthynas â chymorth cysylltiedig. Dywedodd ei fod yn credu ei bod yn annheg bod dwy haen o gymorth cysylltiedig, ac y byddai'r Alban ond yn gallu defnyddio 8% o'i derfyn ar gyfer cymorth cysylltiedig a oedd, er gwaetha'r ffaith ei fod bron ddwbl y cymorth cysylltiedig presennol o dan y cynllun eidion, yn llai na'r 10 i 15% yr oedd y Llywodraeth wedi gofyn amdano. Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet siom benodol ynghylch canlyniad y gyllideb:

---

[48] Senedd yr Alban, Adroddiad Swyddogol 3 Hydref 2013 Cols 23303-59

> In the new CAP, Scotland will probably have lower rates per hectare in both pillars than every other member state in Europe. That is even worse than what we get today. If Scotland had been a member state, we would automatically have got an uplift to €196 per hectare in Pillar 1. As I have said before, that would bring in an extra €1 billion up to 2020. We could also have negotiated an uplift in Pillar 2, in the same way as 16 other member states have done. Finland got a €600 million uplift, Portugal got €500 million, Slovenia got €150 million, Lithuania got an extra €100 million, and so on. However, the UK Government took the decision not to press Scotland's case.[49]

### Rhanddeiliaid

Mae Undeb Cenedlaethol Amaethwyr yr Alban wedi galw ar Lywodraeth yr Alban i egluro cyn gynted â phosibl sut y mae'n bwriadu gweithredu'r newid o daliadau hanesyddol i daliadau'n seiliedig ar arwynebedd yn yr Alban. Mae wedi awgrymu y dylai taliadau arwynebedd roi pwys ar dir cynhyrchiol, ond gyda chymorth cysylltiedig digonol i gynhyrchwyr da byw, yn arbennig y rhai ar dir llai cynhyrchiol, er mwyn eu hatal rhag lleihau stoc. Mae wedi egluro ei fod wedi cadarnhau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystod y trafodaethau ar ddiwygio'r PAC mai penderfyniad Llywodraeth y DU oedd a ddylid caniatáu i Lywodraeth yr Alban ddefnyddio hyd at 8% o derfyn y DU ar gyfer cymorth cysylltiedig, ac mae wedi galw ar Lywodraeth y DU i wneud hynny, i gynyddu'r opsiynau ar gyfer darparu cymorth cysylltiedig yn yr Alban.

Mae hefyd wedi galw ar Lywodraeth y DU i ddyrannu cyllideb PAC rhwng gwledydd y DU mewn ffordd sy'n sicrhau bod cynhyrchwyr âr yn Berwickshire yn cael yr un cymorth â'r rhai yn Norfolk neu bod ffermwyr yn yr Ucheldiroedd yn cael yr un cymorth â'r rhai sy'n ffermio yn Ardal y Llynnoedd. Gyda chyllideb Colofn 1 yn cael ei brigdorri ar gyfer taliadau gwyrdd, cymorth cysylltiedig, ac i greu cronfa genedlaethol a rhoi taliadau atodol i ffermwyr ifanc, mae Undeb Amaethwyr Cenedlaethol yr Alban wedi galw am drosglwyddo uchafswm o 4% o gronfeydd Colofn 1, sy'n sylweddol llai na'r 14% sy'n cael eu trosglwyddo ar hyn o bryd. Galwodd am arian cyfatebol ar gyfer unrhyw drosglwyddiadau.[50]

---

[49] *Ibid*

[50] Datganiad Newyddion Undeb Cenedlaethol Amaethwyr yr Alban , ***All must seize CAP window of opportunity,*** 3 Hydref 2013 a Datganiad Newyddion Undeb Cenedlaethol Amaethwyr yr Alban, ***Union calls for fair deal as CAP deadlines loom***, 8 Hydref 2013.

Mae Cyswllt Amgylchedd yr Alban, sef consortiwm o fwy na 30 o gyrff amgylcheddol yn yr Alban, wedi gwneud nifer o alwadau ar weithredu'r PAC yn yr Alban. Noda fod dosbarthiad presennol y Taliad Sengl yn yr Alban yn caniatáu am batrymau cynhyrchu hanesyddol ac yn arwain at y lefelau uchaf o gefnogaeth gyhoeddus i'r busnesau sydd fwyaf hyfyw yn economaidd tra bod y busnesau fferm sydd fwyaf bregus yn economaidd ac yn aml y rhai pwysicaf yn amgylcheddol - cynhyrchwyr da byw helaeth yn bennaf - yn cael lefelau isel o gymorth. Mae felly wedi galw am daliadau arwynebedd o dan gynllun y taliad sylfaenol i gael eu targedu tuag at dir fferm sydd o Werth Mawr i Natur.

Mae Cyswllt Amgylchedd yr Alban yn amcangyfrif y bydd taliadau gwyrdd yn yr Alban yn werth tua £130m y flwyddyn, sef tua thair gwaith y gwariant presennol ar gynlluniau amaeth-amgylchedd. Mae'n siomedig ynghylch diffyg uchelgais yr UE ar gyfer y taliadau hyn, a'r ffaith ei bod yn edrych yn debygol y bydd y gofynion ar lefel fferm i lawer o ffermwyr yn yr Alban nad ydynt yn ffermwyr âr yn diflannu. Cred Cyswllt Amgylchedd yr Alban fod cyfle i ddatblygu model taliad gwyrdd amgen wedi'i gynllunio i gynnal nodweddion seilwaith/tirwedd gwyrdd, gwella ansawdd dŵr a phridd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond noda'r her i ddatblygu hyn erbyn 2015. Mae wedi galw am drosglwyddo 15% o gyllideb Colofn 1 yr Alban i Golofn 2, ac i 50% o arian Rhaglen Datblygu Gwledig nesaf yr Alban gael ei ddefnyddio ar gyfer mesurau hinsawdd-amaeth-amgylchedd a ffermio organig (heb gyfrif cymorth ar gyfer Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol).[51]

## *4.4. Cymru*

### Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ddogfen ymgynghori ym mis Gorffennaf 2013 a amlinellodd ei fwriadau ar gyfer gweithredu taliadau uniongyrchol Colofn 1 yng Nghymru a'i sail resymegol dros ddewis rhai elfennau ac nid eraill. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 30 Tachwedd 2013 a disgwylir i'r Gweinidog wneud cyhoeddiad ar ei gasgliadau ym mis Ionawr 2014.

Mewn perthynas â Cholofn 2 a'r cynllun datblygu gwledig, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp cynghori ar y cynllun datblygu gwledig i nodi a datblygu blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod cynllunio newydd.  Yn ogystal, cyhoeddodd ymgynghoriad ym mis Ionawr 2013 ar ei brif flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer cynllun newydd.  Roedd y rhain yn cynnwys ystyried y defnydd o offerynnau ariannol newydd fel benthyciadau i gefnogi buddsoddiadau ar ffermydd ac arallgyfeirio nad yw'n arallgyfeirio amaethyddol ac ynni adnewyddadwy ar y fferm a chymunedol.  Mae nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ar themâu penodol hefyd

[51] Cyswllt Amgylchedd yr Alban, ***Parliamentary Breifing on CAP Reform,*** 3 Hydref 2013.

wedi cael eu cynnal gyda rhanddeiliaid ar gynnwys y cynllun.  Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi nodi y bydd yn amlinellu ei gynigion dangosol ar gyfer Colofn 2 yn y Flwyddyn Newydd ac y bydd yn ymgynghori ar fanylion y cynllun newydd yng Ngwanwyn 2014.

**Rhanddeiliaid**

Mae rhanddeiliad yng Nghymru wedi croesawu'r ffaith y daethpwyd i gytundeb gwleidyddol ond yn parhau i fynegi pryder ynghylch rhagor o oedi posibl cyn mabwysiadu'r cytundeb terfynol a'r amser y bydd gan Aelod-wladwriaethau i baratoi ar gyfer gweithredu'r diwygiadau. Yn ogystal, bu ymateb cymysg i'r hyblygrwydd a roddir i Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau o fewn y diwygiadau. Er bod rhai wedi croesawu'r cyfle i deilwra'r gofynion i gyd-fynd ag anghenion y diwydiant amaethyddol yng Nghymru, mae eraill wedi mynegi pryder ynghylch effeithiau ar gystadleurwydd ffermwyr Cymru yn y DU a ledled yr UE.

At ei gilydd mae sefydliadau ffermio yng Nghymru wedi nodi y bydd cynnwys y diwygiadau terfynol y cytunwyd arnynt yn llai niweidiol i'r diwydiant na'r rhai a gynigiwyd yn wreiddiol gan y Comisiwn.  Maent wedi parhau i fynegi pryder am effaith lleihad yng nghyllideb PAC yng Nghymru ac mae wedi pwyso ar Lywodraeth Cymru i beidio â throsglwyddo arian o Golofn 1 i raglenni datblygu gwledig Colofn 2.

Mynegodd sefydliadau amgylcheddol eu siom bod nifer o elfennau gwyrdd wedi'u glastwreiddio. Fodd bynnag, maent hefyd wedi nodi bod yr hyblygrwydd a gynigir i Weinidogion Cymru yn sgil y diwygio yn cynnig cyfle drwy weithredu gofalu i gyflawni rhai uchelgeisiau gwyrdd a fynegwyd yn wreiddiol gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae rhagor o wybodaeth am ymatebion rhanddeiliaid o Gymru isod. Efallai y bydd ymatebion sefydliadau'r DU a chanddynt gyrff aelodaeth yng Nghymru hefyd o ddiddordeb.

**Dolenni i ragor o wybodaeth:**

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru,  Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Trafodaeth o Amgylch y Bwrdd ar Ddiwygio'r PAC: Cofnod y Trafodion 17 Gorffennaf 2013
- Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru

## 4.5. *Iwerddon*

**Llywodraeth Iwerddon**

Fel deiliaid llywyddiaeth yr UE yn ystod hanner cyntaf 2013, roedd Iwerddon yn ganolog i'r trafodaethau. Mae Simon Coveney TD, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr, yn credu bod y cytundeb ar ddiwygio'r PAC yn becyn cytbwys iawn ac yn teimlo ei fod yn cynnig a all sicrhau datblygiad cynaliadwy'r sector hyd 2020 a thu hwnt.[52]

Nodwyd mai ailddosbarthu taliadau uniongyrchol yw'r mater anoddaf i Iwerddon ac mae'r Gweinidog yn falch iawn y bydd y cytundeb terfynol yn galluogi Iwerddon i gyflawni'r ddwy nod o wneud y system taliadau uniongyrchol yn decach ond peidio â thanseilio ymdrechion y rhai sy'n cael taliadau uwch i ddatblygu eu mentrau ffermio.[53]

Croesawodd y Gweinidog ganlyniad y trafodaethau ar nodweddion gwyrdd y PAC. Pwysleisiodd hefyd yr angen am newid mewn ffermio sy'n canolbwyntio'n fwy ar genedlaethau ledled Ewrop gan nodi mai ffafrio ffermwyr ifanc oedd un o'i flaenoriaethau.[54]

Cyhoeddodd yr Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr bapur ymgynghori ym mis Gorffennaf 2013 ar gymhwyso'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol (Colofn 1) o dan ddiwygio'r PAC. Gofynnwyd am sylwadau erbyn 20fed Medi 2013. Dechreuodd yr ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid mewn perthynas â Datblygu Gwledig (Colofn II) yn 2012. Rhagwelir rhagor o ymgynghori cyn diwedd 2013 ond nid yw'r union fformat wedi'i benderfynu eto.[55] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adran 5.35 y papur hwn.

**Rhanddeiliaid**

Mae sefydliadau ffermio wedi croesawu'r cytundeb gan ei fod yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i ffermwyr.  Er bod siom ynghylch rhai agweddau, mae Cymdeithas Amaethwyr Iwerddon a chymdeithasau ffermio eraill yn teimlo bod y canlyniad yn llai niweidiol na'r cynigion gwreiddiol Ciolos ar gyfer ffermwyr cynhyrchiol actif. Dadleuant y dylai'r ffocws fod ar roi blaenoriaeth i ffermwyr actif a blaengar ar draws Colofnau I a II. Mae Cymdeithas Amaethwyr Iwerddon, Cymdeithas Cyflenwyr Llaeth Hufenfa Iwerddon a Chymdeithas Ffermwyr Gwartheg a Defaid Iwerddon oll wedi gwrthwynebu'n gyhoeddus y toriadau i'r Taliad Sengl i ariannu taliadau cysylltiedig. Mae Macra na Feirme (cymdeithas ffermwyr ifanc) yn credu

---

[52] Cylchlythyr ar lein y Gweinidog, Rhifyn 8, 24 Medi 2013. Ar gael yn: **http://www.agriculture.gov.ie/media/migration/aboutus/ministersnewsletters/MinisterFinal240913.pdf** [fel ar 26.09.2013]
[53] *Ibid*
[54] *Ibid*
[55] Yr Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Mr Gwyddelig, ***Crynodeb o'r broses ychwanegol o ymgynghori â rhandeiliaid a'r cyhoedd ar baratoi'r rhaglen datblygu gwledig ar gyfer 2014-2020***, Medi 2013

nad yw'r diwygiadau wedi mynd yn ddigon pell i annog ffermwyr actif ac yn pwysleisio'r angen i dargedu a gwobrwyo ffermwyr actif drwy'r Taliad Sengl.

Mae BirdWatch Ireland yn siomedig gyda chanlyniad y trafodaethau ar y PAC ac yn credu bod y diwygio'n groes i bob ymgais i feithrin ffermio mwy cynaliadwy yn Iwerddon a ledled Ewrop.[56]

Mae Alan Matthews, Athro Emeritws Polisi Amaethyddol Ewrop yng Ngholeg y Drindod Dulyn a Llywydd Cymdeithas Economegwyr Amaethyddol Ewrop wedi cyhoeddi ei sylwadau i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Taliad Uniongyrchol (gweler y ddolen i'r testun llawn isod). Dadleua'r Athro yn erbyn cymorth cysylltiedig i Iwerddon ac mae'n credu yn ddelfrydol y dylai Iwerddon ddefnyddio'r hyblygrwydd llawn i drosglwyddo arian o Golofn 1 i Golofn 2. Noda hefyd nad oes dadl dros bennu gostyngiad sylfaenol ar gyfer y taliad fesul hectar.

**Dolenni i ragor o wybodaeth**

- Cymdeithas Amaethwyr Iwerddon: *IFA Council endorses position on CAP consultation paper* 19 Medi 2013
- Cymdeithas Cyflenwyr Llaeth Hufenfa Iwerddon: Cylchlythyr Cymdeithas Cyflenwyr Llaeth Hufenfa Iwerddon Haf 2013, *The post-agreement date* 25 Gorffennaf 2013
- Cymdeithas Ffermwyr Gwartheg a Defaid Iwerddon: *Agreement on CAP welcomed but compromise is far from ideal* 26 Mehefin 2013
- Macra na Feirme: *Macra not happy with lip service on active farmers* 24 Medi 2013
- Alan Matthews, CAP Reform.eu, *Consultation process on Direct Payments Regulation* n.d, 20 Medi 2013
- BirdWatch Ireland, *Final CAP deal stripped of environmental benefits* 26 Mehefin 2013

## *4.6. Sefydliadau Ewropeaidd*

Croesawyd y cytundeb yn gyffredinol gan bob un o dri sefydliad yr UE. Mae'r Comisiynydd Ewropeaidd dros Amaethyddiaeth, Dacian Ciolos, wedi amlinellu ei gred y bydd y diwygiadau yn arwain at newidiadau pellgyrhaeddol yn y PAC ac yn cyfrannu at daliadau uniongyrchol tecach a mwy gwyrdd, y bydd yn cryfhau sefyllfa ffermwyr o ran y gadwyn cyflenwi bwyd ac y bydd yn gwella tryloywder.[57]

Yn ogystal â chroesawu'r cytundeb, mae Senedd Ewrop wedi nodi bod y broses drafod wedi dangos pwysigrwydd y weithdrefn gydbenderfynu. Mae Cadeirydd

---

[56] BirdWatch Ireland, ***Final CAP deal stripped of intended environmental benefits,*** 26 June 2013
[57] Datganiad i'r Wasg y Comisiwn Ewropeaidd, ***Political agreement for new direction on Common Agricultural Policy***, 26 Mehefin 2013

Pwyllgor Amaethyddiaeth Senedd Ewrop, Paulo De Castro, wedi nodi bod y Senedd wedi gallu gwella'r pecyn diwygio a gweithredu'n gyflym i sicrhau canlyniadau llwyddiannus. [58]

Croesawodd Simon Coveney, Gweinidog Iwerddon, a arweinodd y trafodaethau ar ran Llywyddiaeth Iwerddon o'r Cyngor, gytundeb mis Mehefin gan ei ddisgrifio fel cytundeb hanesyddol a chytbwys. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r diwygiadau'n sicrhau cynaliadwyedd y sector hyd 2020.[59] Croesawodd Llywyddiaeth Lithiwania, a arweiniodd y trafodaethau ar yr elfennau terfynol ym mis Medi, yr eglurder a'r sicrwydd y bydd y cytundeb ar yr elfennau terfynol yn ei roi i ffermwyr.[60]

Mae sefydliadau rhanddeiliaid Ewropeaidd wedi cyflwyno barn debyg i farn rhanddeiliaid cenedlaethol. Croesawodd Copa-Cogeca, corff sy'n cynrychioli undebau ffermio a chydweithfeydd ffermio, ganlyniad y diwygiadau fel gwelliant ar gynigion gwreiddiol y Comisiwn ond mae wedi mynegi ei siom ynghylch y cytundeb ar y gyllideb y PAC. Yn gyffredinol mae'r sector amgylcheddol wedi mynegi ei siom ynghylch y canlyniad. Dywedodd Swyddfa Amgylcheddol Ewrop fod amcanion gwyrdd y diwygiadau yn deilchion. Dywedodd hefyd na fydd y diwygiadau a gytunwyd yn arwain at PAC tecach na gwyrddach. Cred Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewrop fod elfen amgylcheddol y cytundeb wedi dioddef ar draul cyfaddawd gwleidyddol a meddylfryd tymor byr. Noda'r Sefydliad yn benodol y lleihad mewn gofynion trawsgydymffurfiol, gostyngiad anghymesur yn y gyllideb datblygu gwledig o gymharu â'r lleihad yng Nghyllideb Colofn 1 a'r opsiynau i lywodraethau ddefnyddio cyfran fawr o'u cyllideb datblygu gwledig i gefnogi taliadau uniongyrchol. [61]

---

[58] Datganiad i'r Wasg Senedd Ewrop, ***New farm policy clears key hurdle: Agriculture MEPs endorse CAP reform deal,*** 30 Medi 2013

[59] Datganiad i'r Wasg Llywyddiaeth Iwerddon o'r UE, ***Historic day for Common Agricultural Policy as Irish Presidency steers European institutions to landmark reform deal,*** 26 Mehefin 2013

[60] Datganiad i'r Wasg Llywyddiaeth Lithiwania o'r UE 2013, ***New Rules on Common Agricultural Policy Reform approved,*** 8 Hydref 2013

[61] Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewrop, ***Environment undermined in CAP deal***, 26 Mehefin 2013

**Dolenni i ragor o wybodaeth**

- Copa-Cogeca- Corff sy'n cynrychioli undebau ffermio a chydweithfeydd ffermio
- CEJA- Cyngor Ffermwyr Ifanc Ewrop, *CEJA hails historic political agreement on strong young farmers' measures in CAP reform*, 26 Mehefin 2013
- Swyddfa Amgylcheddol Ewrop, *Irish Presidency green credentials blemished by disasterous CAP agreement*, 28 Mehefin 2013
- ARC2020- cynghrair rhwydweithiau a sefydliadau cymdeithas sifil
- Friends of the Earth Europe, *CAP reform failure for environment and small farmers*, 26 Mehefin 2012
- WWF Europe, *Environment in danger because of EU agriculture deal*, 26 Mehefin 2013
- Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewrop e.e. IEEP, *Political Agreement on the CAP – is this really a paradigm shift for the environment?* 3 Gorffennaf 2013

## 5. Trefniadau pontio ar gyfer 2014

Yn wreiddiol bwriadwyd i'r PAC diwygiedig fod ar waith o 1 Ionawr 2014. Fodd bynnag, er y daethpwyd i gytundeb gwleidyddol ar reolau PAC ar gyfer y dyfodol ym mis Mehefin 2013, dim ond ym mis Gorffennaf 2013 y cafodd cytundeb ar y Fframwaith Ariannol Amlflwydd, sef cyllideb gyffredinol yr UE y mae cyllideb PAC yn rhan ohono, ei gymeradwyo gan Senedd Ewrop. Cymerodd dros chwe mis yn hwy nag y bwriadwyd i sicrhau cytundeb ar lefel yr UE. Roedd hyn yn golygu ei bod yn rhy hwyr i'w weithredu yn 2014.

Daethpwyd i gytundeb gwleidyddol ar yr ychydig faterion a oedd yn weddill (yng nghyd-destun y Fframwaith Ariannol Amlflwydd) o dan Lywyddiaeth Lithiwania ar 24ain Medi 2013. Yn dilyn y cytundeb hwn y gobaith yw y gellir mabwysiadu'r testunau deddfwriaethol a'r trefniadau pontio (dros dro) ar gyfer 2015 yn ffurfiol cyn diwedd y flwyddyn, i ddod i rym ar 1 Ionawr 2014.[62]

Cymeradwyodd Pwyllgor Amaethyddol Arbennig y Cyngor y cytundeb ar 7 Hydref 2013. Cafwyd pleidlais yn Senedd Ewrop ar 19 Tachwedd 2013.[63] O dan fesurau dros dro (pontio), bydd y Taliad Sengl yn parhau yn ystod 2014. Caiff y diwygiadau eu rhoi ar waith yn llawn yn 2015.

### *5.1. Lloegr*

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu dechrau Rhaglen Datblygu Gwledig newydd yn Lloegr ar 1 Ionawr 2015. Caiff hon ei rheoli gan Defra a chyflwynir cynigion i'r Comisiwn yn ystod chwarter cyntaf 2014.[64] Mae wedi amlinellu'r targedau tebygol ar gyfer cyllid yn y cyfnod pontio yn 2014 rhwng y rhaglenni datblygu gwledig yn Lloegr er mwyn cynnig eglurder i ffermwyr. Mae'r pecyn hwn yn ddibynnol ar gytuno ar reolau manwl ar lefel yr UE ac maent yn cynnwys:[65]

- ***Cytundebau amaeth-amgylchedd Stiwardiaeth Lefel Uwch newydd*** sy'n costio tua £26m y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys cynnig cytundebau Stiwardiaeth Lefel Uchel i'r rhai â chytundeb 'clasurol' hen ffasiwn sy'n dod i ben a chytundebau newydd ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac achosion blaenoriaeth uchel eraill ac i ddiwallu amcanion y Fframwaith Dŵr gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â safleoedd Natura 2000.

---

[62] Datganiad i'r Wasg Comisiwn Ewropeaidd, ***Reform of the CAP: Political agreement recahed on last remaining points,*** 24 September 2013
[63] Datganias i'r Wasg Comisiwn Ewropeaidd, ***One trillion euro to invest in Europe's future-the EU's budget***, 19 November
[64] Memorandwm gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ymchwiliad Pwyllgor Bwyd a Materion Gwledig Ty'r Cyffredin i weithredu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin 2014-2020, 18 Hydref 2013, t.13
[65] Defra, ***CAP reform in England: Status report on the new Rural Development Programme,*** 12 Awst 2013, t.5

- ***Stiwardiaeth Lefel Mynediad Ucheldir ac Organig.*** Cynllun i gynnig Stiwardiaeth Lefel Mynediad ar gyfer tir lle mae cynlluniau 'clasurol' yn dod i ben yn 2014 nad ydynt yn gymwys i gael Stiwardiaeth Lefel Uwch (sy'n costio tua £4m y flwyddyn). Bwriad hyn yw sicrhau pontio didrafferth ar gyfer ardaloedd sydd wedi bod dan reolaeth amgylcheddol ers amser maith.
- ***Prosiectau cyfalaf a chyngor yn ymwneud â ffermio sy'n sensitif i'r dalgylch*** *o hyd at £14 miliwn, gan gynnwys camau sy'n gysylltiedig â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar safleoedd Natura 2000*
- Hyd at £0.5 miliwn i *ariannu buddsoddiadau cyfalaf untro ar gyfer* grantiau coedwigaeth
- Hyd at £1m o bosibl ***i barhau â rhai prosiectau strategol presennol.*** Hyd at £3 miliwn yn 2014 i helpu i ***gynnal y rhaglen LEADER*** yn lleol ac arbenigedd gan y rhaglen bresennol.
- ***Cymorth parhaus drwy'r Ymgyrch ar gyfer yr Amgylchedd a Ffermir***
- ***Cynllun Dim Cnydau Ynni***. Nid yw Gweinidogion eisiau cynnig cymhelliant ar gyfer cnydau ynni drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig, gan ffafrio mwy o ddefnydd o wastraff mewn bio-ynni (yn arbennig treulio anerobig).

## *5.2. Gogledd Iwerddon*

O gofio natur barhaus y trafodaethau manwl ar bontio ar lefel yr UE, nid yw'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi cytuno'n ffurfiol ar y trefniadau pontio ar gyfer y PAC eto a fydd yn dod i rym yn 2014, cyn gweithredu'r dulliau PAC newydd yn 2015.

O gofio'r cafeat hwn fodd bynnag, mae'r Adran yn rhagweld y canlynol ar hyn o bryd:

- Bydd Colofn 1 (taliadau uniongyrchol) yn parhau yn 2014, ond bydd yn rhaid addasu gan y bydd y gyllideb yn llai. Yna bydd y taliad sengl newydd yn dechrau yn 2015.
- Bydd y Cynllun Lwfansau Iawndal ar gyfer Ardaloedd Llai Ffafriol yn parhau yn 2014 o fewn Colofn 2 .

Ni fydd yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn ymestyn ei gontractau amaeth-amgylchedd a fydd yn dod i ben ar 31ain Rhagfyr 2013

## *5.3. Yr Alban*

Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi'r trefniadau pontio canlynol ar gyfer yr Alban yn 2014:

- Bydd 'Colofn 1' y PAC (taliadau uniongyrchol i ffermwyr ) - Taliadau Sengl a Chynllun Lloeau Eidion yr Alban yn parhau yn 2014.
- Bydd y Cynllun Cymorth i Ardaloedd Llai Ffafriol yn parhau yn 2014.

- Caiff contractau amaeth-amgylchedd (gan gynnwys cytundebau organig) a oedd i fod i ddod i ben ar 31 Rhagfyr, 2013 eu hymestyn am flwyddyn arall.
- Taliadau coedwigaeth - Bydd prosiectau creu coetiroedd a rheoli coetiroedd yn gallu mynd yn eu blaen yn ystod 2014-15 o dan gontractau sy'n cael eu cymeradwyo hyd ddiwedd 2013.
- Bydd prif elfennau Cynllun Grant Amaethyddol Siroedd Tyddynnod yn parhau o dan gynllun cymorth gwladwriaethol.
- Mae Llywodraeth yr Alban yn cyflwyno dadl dros reoliadau pontio i ganiatáu cymorth parhaus i gynllun LEADER yr Alban, sydd wedi buddsoddi tua £60 miliwn y gefnogi cymunedau gwledig a'r cynllun Bwyd a Diod gwerth £10 miliwn a ariennir gan yr UE. Disgwylir penderfyniad gan Ewrop ym mis Tachwedd 2013.
- Ni fydd ceisiadau Opsiynau Rheolwyr Tir newydd ar gyfer 2014 gan na chaniateir y math hwn o gymorth anghystadleuol o dan y fframwaith rheoleiddio newydd a roddir ar waith gan y Comisiwn Ewropeaidd. [66]

## *5.4. Cymru*

Fel y nodir yn yr adran flaenorol, cyhoeddodd Alun Davies, y Gweinidog Bwyd ac Adnoddau Naturiol, ddogfen ymgynghori ym mis Gorffennaf 2013 a oedd yn amlinellu ei fwriadau ar gyfer gweithredu Colofn 1. Daw'r ymgynghoriad i ben ddiwedd mis Tachwedd 2013. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ym mis Ionawr 2013 ar ei phrif flaenoriaethau arfaethedig ar gyfer cynllun newydd ond ni fydd ymgynghoriad ar y cynlluniau manwl yn cael ei gynnal tan 2014. Mae cynlluniau o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013 bresennol yn destun trefniant N+2. Golyga hyn y bydd gan Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau tan ddiwedd 2015 i wario eu hamlenni ariannol ar gyfer 2007-13.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai dim ond pan fydd y rheoliadau wedi cael eu cytuno gan yr Undeb Ewropeaidd y bydd yn symud ymlaen ac yn gwneud trefniadau ar gyfer y flwyddyn drosiannol.

---

[66] Datganiad i'r Wasg Llywodraeth yr Alban, ***Rural support schemes to continue***, **20** Medi 2013

## *5.5. Iwerddon*

**Colofn 1:** Caiff penderfyniadau ar gymhwyso'r Rheoliad ar Daliadau Uniongyrchol yn Iwerddon eu gwneud gan y Gweinidog Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr. Dechreuwyd proses ymgynghori ym mis Gorffennaf gyda 20 Medi fel dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau. Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf holiadur a oedd, yn benodol, yn amlinellu'r hyblygrwydd a ganiateid i bob Aelod-wladwriaeth. Bydd y penderfyniadau ar y materion hyn yn llywio'r trefniadau terfynol ar Daliadau Uniongyrchol yn Iwerddon. Mae'r Adran wedi dadansoddi'r cyflwyniadau a disgwylir penderfyniad ddiwedd mis Tachwedd / dechrau mis Rhagfyr eleni pan fydd y Gweinidog yn cyhoeddi'r trefniadau terfynol ar gyfer Taliadau Uniongyrchol un Iwerddon.[67]

**Colofn 2:** Mewn perthynas â chynlluniau presennol Rhaglen Datblygu Gwledig 2006-2013 ceir trefniant N+2. Golyga hyn y bydd gan Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau tan ddiwedd 2015 i wario eu hamlenni ariannol ar gyfer 2007-13. Ar hyn o bryd mae Iwerddon wrthi'n datblygu Rhaglen Datblygu Gwledig newydd ar gyfer 2013-2020 ac nid yw'n bwriadu cael cyfres newydd o fesurau interim newydd ar gyfer 2014 ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd rhai cynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig bresennol yn parhau i wneud taliadau yn 2014 o dan y rheol N+2 (gan gynnwys y cynlluniau amaeth-amgylchedd, Cynllun Diogelu'r Amgylchedd Gwledig (REPS) a'r Cynllun Opsiynau Amaeth-amgylchedd (AEOS) a chynlluniau rheoli amaethyddol wedi'u targedu [buddsoddiad cyfalaf]). Fel y nodir yn Adran 4.2 o'r papur hwn dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Golofn 2 yn 2012. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch cam nesaf yr ymgynghoriad ar golofn 2.[68]

[67] Gohebiaeth bersonol gyda'r Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr, 31 Hydref 2013
[68] *Ibid*, 1 Tachwedd 2013

# 6. Dosbarthu cyllideb PAC


Bydd lefelau presennol y taliadau ledled y DU ac Iwerddon yn dylanwadu'n sylweddol ar nifer o'r penderfyniadau gweithredu a wneir gan y gweinyddiaethau perthnasol. Yn y DU, bydd y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU y bydd dyraniadau PAC yn aros yr un fath ar gyfer y cylch cyllido nesaf hefyd yn gosod y ffiniau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch adnoddau.

Mae'r pecyn diwygio hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i daliadau fod yn gyfartal naill ai drwy leihau neu ailddosbarthu taliadau Colofn 1 a phenderfyniadau ynghylch faint o arian y gellir ei gymryd o Golofn 1 i ariannu amcanion Colofn 2. Ceir opsiynau hefyd i drosglwyddo arian o Golofn 2 i Golofn 1 ac opsiynau i helpu ffermwyr bach ac ati. Felly, mae angen gwneud cryn dipyn o waith modelu i asesu'r canlyniadau gorau posibl.

## *6.1. Lefel bresennol y taliadau*

Roedd yr adroddiad PAC a gyhoeddwyd yn 2010 ar ddyfodol cymorth amaethyddol i'r Alban yn cynnwys ffigurau ar y taliad cyfartalog fesul hectar y mae Aelod-wladwriaethau a gweinyddiaethau datganoledig yn eu derbyn o dan Golofn 1 y PAC.

**Ffigur 4 - Taliad Sengl Cyfartalog fesul hectar 2009**




Ffynhonnell: Llywodraeth yr Alban, Final Report of the Inquiry Into Future Support For Agriculture In Scotland

Mae'r ffigurau yn yr adroddiad yn dangos, yn 2009, o dan Colofn 1, cafodd Lloegr, Iwerddon a Gogledd Iwerddon mwy na chyfartaledd yr UE 27 yr hectar gyda Gogledd Iwerddon yn cael y swm mwyaf yr hectar. Cafodd Cymru daliadau yn unol â chyfartaledd yr UE yr hectar a chafodd yr Alban lawer yn llai na'r cyfartaledd yr hectar. Mae'r tabl isod yn rhoi'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2012, ac mae'n cyfrifo cyfartaledd cyllid Colofn1 fesul hawlydd.

**Tabl 4- Taliad cyfartalog Colofn 1 fesul hectar 2012**

| gwlad | Cyfanswm Amlen Colofn 1 €m | Nifer yr Hectarau Cymwys (miliwn) | €/hectar Colofn 1 (% o gyfartaledd yr UE) | Nifer yr hawlwyr cymwys | € / hawlydd cymwys Colofn 1 |
|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 2615 | 8.7 | 301 (115%) | 103,952 | 25,162 |
| Iwerddon | 1320 | 4.7 | 280 (107%) | 132,031 | 9,976 |
| Gogledd Iwerddon | 351 | 0.95 | 369 (141%) | 37,420 | 9,390 |
| Yr Alban | 653 | 4.48 | 146 (56%) | 18,670 | 35,020 |
| Cymru | 357 | 1.38 | 258 (99%) | 16,550 | 21, 544 |

**Ffynhonnell:** Deilliodd o'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (gohebiaeth bersonol); yr Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr (gohebiaeth bersonol); yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (gohebiaeth bersonol); Llywodraeth yr Alban (gohebiaeth bersonol), mae'r ffigurau ar gyfer derbynyddion cymwys ar gyfer Taliad Sengl; a Llywodraeth Cymru (gohebiaeth bersonol)

Mae cyfrifo ffigur cymharol cyfartalog cywir fesul hectar ar gyfer cymorth Colofn 2 yn gymhleth gan fod llawer o gynlluniau datblygu gwledig yn cynnwys cynlluniau na chânt eu dosbarthu ar sail tir (h.y. cynlluniau sy'n cefnogi busnesau bach a chanolig gwledig). Am y rheswm hwn, nid yw'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys yn y papur hwn.

## 6.2. *Dosbarthu cyllideb CAP yn y DU yn y dyfodol*

Ar 8fed Tachwedd 2013, ac yn dilyn trafodaethau dwys, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai ffermwyr yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn derbyn yr un gyfran o gyllideb gyffredinol Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) 2014-20 ag y maent yn ei chael ar hyn o bryd. Golyga hyn y bydd y gostyngiadau yng ngyllid y PAC yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng Cymru, Lloegr Gogledd Iwerddon a'r Alban. Dywedodd Owen Paterson, Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, fod Llywodraeth y DU wedi gweithio'n agos gyda ffermwyr a gweinidogion ar draws y gweinyddiaethau datganoledig i sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddyrannu'n deg ar draws y DU.[69]

Yn ystod 2014-2020 disgwylir i'r DU dderbyn €25.1 biliwn mewn taliadau uniongyrchol a €2.6 biliwn mewn arian colofn 2 ar gyfer yr amgylchedd a datblygu gwledig.[70] Amlinellir dyraniad y cyllid hwn, o fewn y DU, isod yn Nhabl 5. Mae'r dyraniadau hyn yn ostyngiad mewn termau real o 12.6% a 5.5%, yn y drefn honno, o'u cymharu â thaliadau PAC i'r DU yn ystod y cyfnod 2007-2013.[71]Bydd y dyraniadau terfynol yn amodol ar gytundeb gyda Senedd Ewrop ynghylch Cyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020.[72]

Bydd y DU yn cael taliad chwyddo yn ei chyllideb Colofn 1 o 2014-20 o dan y dull cydgyfeirio allanol, ond bydd rhaid i Aelod-wladwriaethau sy'n cael llai na 90% o daliad cyfartalog y DU fesul hectar gau'r bwlch rhwng eu taliad cyfartalog a 90% o gyfartaledd yr UE draean erbyn 2019. Mae'r taliad chwyddo yn werth tua €10m yn 2015 gan godi i €60m yn 2019, sef cyfanswm o €230 dros y cyfnod.

Cymhlethodd y taliad chwyddo hwn y trafodaethau o fewn y DU gan fod Llywodraeth yr Alban wedi bod yn dadlau y dylai'r taliad chwyddo gael ei ddyrannu i'r Alban oherwydd mai taliadau isel presennol yr Alban ei hun sy'n galluogi'r DU i gymhwyso ar gyfer y taliad chwyddo. Dywedodd Gweinidog Michelle O'Neill o Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon fod y trafodaethau'n anodd ac yn faith oherwydd bod yr Alban yn pwyso’n drwm am gyfran fwy.

Mae'r cytundeb y daethpwyd iddo wedi cael ei groesawu gan weinidogion amaethydiaeth Gogledd Iwerddon a Chymru ond mae Gweinidog Materion Gwledig yr Alban, Richard Lochhead, wedi galw'r setliad yn 'warthus'.[73] Disgrifir yr ymatebion i'r dyraniadau o fewn y DU isod.

---

[69] .GOV.UK Datganad i'r Wasg, *UK CAP allocations announced*, 8 Tachwedd 2013
[70] .*Ibid*
[71] *Ibid*
[72] *Ibid*
[73] Datganiad Newyddion Llywodraeth yr Alban, ***Scotland's CAP budget cut***, 8 Tachwedd 2013

**Tabl 5: Dyraniadau PAC y DU 2014-2020**

| | Colofn 1 / € miliwn (yn fras heb addasu ar gyfer chwyddiant)<br><br>(Cymorthdaliadau uniongyrchol) | % o'r gyfran | Colofn 2 / € miliwn (yn fras heb addasu ar gyfer chwyddiant)<br><br>(Amgylchedd a Datblygu Gwledig) | % o'r gyfran |
|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 16,421 | 65.5 | 1,520 | 58.9 |
| Gogledd Iwerddon | 2,299 | 9.2 | 227 | 8.8 |
| Yr Alban | 4,096 | 16.3 | 478 | 18.5 |
| Cymru | 2,245 | 8.96 | 355 | 13.7 |
| **Cyfanswm dyraniad y DU.**<br><br>**% y newid ar 2007-2013**<br><br>*(wedi'i addasu yn ôl chwyddiant - prisiau 2011)* | **25.1 biliwn-12.6** | | **2.6 biliwn-5.5** | |

Sylwer: Nid yw'r ffigurau wedi eu haddasu yn ôl chwyddiant yn ystod y cyfnod.

Ffynhonnell: Llywodraeth y DU, Tachwedd 2013[74]

[74] Datganiad i'r WASG .GOV.UK, *CAP allocations announced*, 8 Tachwedd 2013

## 6.3. *Lloegr*

Ymddengys fod ffermwyr Lloegr yn cytuno â Llywodraeth y DU bod dyraniadau'r PAC o fewn y DU yn deg.  Bydd Lloegr yn cael dyraniad Colofn 1 (taliad uniongyrchol) o oddeutu €16,421 miliwn, a dyraniad Colofn 2 o oddeutu €1,520 miliwn sy'n gyfystyr ag oddeutu 66.5% o gyfanswm dyraniad Colofn 1 y DU a 59% o gyfanswm cyllideb Colofn 2 y DU.[75]

Croesawodd Llywyddion Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru ac Undeb Amaethwyr Ulster y penderfyniad ar ddyrannu'r PAC yn y DU mewn datganiad ar y cyd gan ddisgrifio'r penderfyniad fel setliad teg i ffermwyr ar draws y Deyrnas Unedig ac yn un a oedd yn caniatáu i'r pedair llywodraeth wneud rhagor o benderfyniadau ar weithredu'r PAC gyda syniad clir o'r adnoddau a fydd ar gael dros y saith mlynedd nesaf.  Roeddent yn falch bod Gweinidogion wedi gwrando ar eu sylwadau ac wedi penderfynu gwrthsefyll y pwysau gan yr Alban am gyfran fwy gan y byddai hynny wedi bod ar draul rhannau eraill o'r DU.[76]

## 6.4. *Yr Alban*

Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi dadansoddiad o ddyraniadau presennol Colofn 1 a Cholofn 2 a dyraniadau'r dyfodol fesul hectar ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth, ac ar gyfer yr Alban. Dengys hyn mai dim ond dwy Aelod-wladwriaeth (Estonia a Latfia) sy'n cael taliad cyfartalog Colofn 1 is fesul hectar na'r Alban, ac oherwydd y dull cydgyfeirio allanol bydd eu taliadau cyfartalog yn uwch na thaliad yr Alban ar gyfer 2014-20. [77]

Gwnaeth Richard Lochhead ASE, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Amgylchedd, ddatganiad yn Senedd yr Alban am ddyrannu cyllideb y PAC ddydd Mawrth 12 Tachwedd 2013.[78] Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r cytundeb yn golygu mai'r Alban fyddai'n cael y gyfraddd isaf fesul hectar yn Ewrop, a chyfradd is na phobl Aelod-wladwriaeth yn nwy golofn y PAC. Disgrifiodd hyn fel sefyllfa ddifrifol iawn a dywedodd fod Llywodraeth yr Alban yn gresynu'n fawr wrth hynny.

---

[75] *Ibid*

[76] Datganiad i'r Wasg Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, ***Farming Unions joint statement to welocme PAC***, 8 Tachwedd 2013

[77] Llywodraeth yr Alban, ***CAP Budget: Potential Funding Levels for Scotland for 2014-2020,*** 19 Hydref 2013

[78] Senedd yr Alban, *Official Report* – ***Statement on CAP Budget Allocation,*** 12 Tachwedd 2013.

Eglurodd fod y fformiwla cydgyfeirio allanol yn golygu, pe bai'r Alban yn Aelod-wladwriaeth, y byddai wedi cael €1 biliwn yn ychwanegol o arian y PAC yng Ngholofn 1 o 2014-20, oherwydd bod taliad cyfartalog Colofn 1 yr Alban ar hyn o bryd gymaint yn is na thaliad cyfartalog yr UE fesul hectar. Dywedodd er bod taliad cyfartalog isel yr Alban yn cael ei wrthbwyso gan y taliadau cyfartalog uwch a gaiff ffermwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, y byddai'r DU serch hynny yn cael €223 miliwn drwy'r dull cydgyfeirio allanol, sydd, dadleuodd, yn deillio'n uniongyrchol o ddyraniad isel yr Alban. Mae Llywodraeth yr Alban wedi galw ar i'r *holl* arian hwn gael ei ddyrannu i'r Alban.[79] Mae'r alwad hon wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol yn Senedd yr Alban.[80] Byddai'r dyraniadau a gyhoeddwyd ar 8 Tachwedd 2013 yn golygu bod yr Alban yn cael dim ond 16% o'r arian ychwanegol  y mae'r DU yn ei gael drwy gydgyfeirio allanol.

Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet o ganlyniad i'r penderfyniadau ar ddyrannu arian PAC yn y DU, y byddai cyllideb Colofn 1 yr Alban yn lleihau o €597 miliwn yn 2013 i €580 miliwn yn 2014, ac yna'n cynyddu ychydig i €587 miliwn erbyn 2019. Byddai hyn yn golygu bod gan yr Alban daliad cyfartalog o €128 fesul hectar yn 2019 (llai na hanner cyfartaledd yr UE). Dywedodd er bod Llywodraeth y DU wedi ceisio cyfiawnhau hyn ar y sail bod yr Alban yn cael mwy fesul fferm, roedd Llywodraeth y DU ei hun yn dadlau yn erbyn defnyddio cymariaethau fesul fferm yn nhrafodaethau'r UE gan ei bod yn credu eu bod yn fesur camarweiniol ac amherthnasol.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Senedd y dadleuwyd y byddai adolygiad o ddyraniad cyllid y PAC yn 2016-17, ond mai dim ond dyraniadau yng nghyfnod cyllido nesaf yr UE o 2021 ymlaen byddai hyn yn ei ystyried.

Soniodd datganiad Ysgrifennydd y Cabinet am ddyraniad yr Alban o Golofn 2 hefyd.  Bydd yr Alban yn cael €477.8 miliwn neu 18.5% o ddyraniad y DU, sef yr un gyfran ag o 2007-13 a byddai'n rhoi €12 fesul hectar i'r Alban o Goloon 2, sef un rhan o chwech o gyfartaledd yr UE, a 15 i 20 gwaith yn llai na'r lefelau a gaiff Awstria a Slofenia.

Mynegodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr yr Alban siom fawr ynghylch y canlyniad ond dywedodd y gallai'r ymrwymiad i gynnal adolygiad arwain at fanteision hirdymor giwrioneddol i ffermio yn yr Alban.  Galwodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr yr Alban ar i'r adolygiad hwn sefydlu proses a fyddai'n sicrhau bod cynhyrchwyr âr yn Berwickshire yn cael yr un faint o gymorth â'r rhai yn Norfolk neu bod ffermwyr mynydd yn yr Ucheldiroedd yn cael yr un faint o gymorth â'r rhai sy'n ffermio yn Ardal y Llynnoedd.  Mae Undeb Cenedlaethol Amaethwyr yr Alban wedi ysgrifennu at y Comisiwn Ewropeaidd i ofyn am ei farn

[79]Datganiad Newyddion Llywodraeth yr Alban, ***Extra EU Cash call***, 3 Hydref 2013,
[80] Datganiad Newyddion Llywodraeth yr Alban, ***Cross-party CAP funding call***, **14** Hydref 2013.

ynghylch y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi dewis dyrannu'r arian ychwanegol y mae'r DU yn ei gael drwy gydgyfeirio mewnol, ac mae hefyd yn gofyn am gyngor cyfreithiol ar ddyraniad cyllideb y PAC yn y DU.[81]

Mynegodd undeb cenedlaethol ffermwyr yr Alban (NFUS) siom fawr ynghylch y canlyniad, ond dywedodd y gallai'r ymrwymiad i gael adolygiad ddod â manteision hirdymor go iawn i ffermio yn yr Alban. Galwodd y NFUS am adolygiad i sefydlu proses a fyddai, yn y pen draw, yn sicrhau bod cynhyrchwyr cnydau âr yn Berwickshire yn cael yr un lefel o gefnogaeth a'r rhai yn Norfolk, neu'n sicrhau bod ffermwyr mynydd yn Ucheldiroedd yr Alban yn cael yr un cymorth a'r rhai sy'n ffermio yn Ardal y Llynnoedd. Mae'r NFUS wedi ysgrifennu at y Comisiwn Ewropeaidd i ofyn am ei farn am y modd y mae Llywodraeth y DU wedi dewis dyrannu'r cyllid ychwanegol y mae'r DU yn ei gael drwy gydgyfeirio mewnol, ac mae'n ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch dyraniad PAC y DU.[82]

## *6.5. Gogledd Iwerddon*

Bydd Gogledd Iwerddon yn cael dyraniad colofn 1 (taliad uniongyrchol) o oddeutu €2,299 mliwn, a dyraniad colofn 2 o oddeutu €227 miliwn sy'n gyfystyr ag oddeutu 9% o gyfanswm dyraniad Colofn 1 y DU a 9% o gyfanswm cyllideb Colofn 2 y DU.

Roedd Michelle O'Neill, Gweinidog Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon yn falch iawn o gyhoeddi bod Gogledd Iwerddon wedi llwyddo i gadw ei chanran hanesyddol o'r gyllideb - y canlyniad yr oedd yn awyddus i'w weld. Bydd hyn yn darparu cymorth ychwanegol o €20 miliwn rhwng nawr a 2019. Meddai:

> I believe that this represents the fairest possible outcome as the existing budget distribution reflects the nature and agricultural production characteristics across all of the regions.
> I have already voiced my disappointment that the EU Budget deal will leave us with reduced budgets, but as a result of today's decision, the risk of any further reduction has been avoided. This provides welcome clarity on the CAP monies available in the north and now allows us to move on to decide how these should be best used for the long term benefit of the rural economy and environment."[83]

---

[81] Datganiadau i'r Wasg Undeb Cenedlaethol Amaethwyr yr Alban, ***No immediate uplift in CAP budget allocation***, 8 Tachwedd 2013 and ***Union Seeks Commission Clarity on Convergence***, 12 Tachwedd 2013
[82] Datganiad i'r Wasg Undeb Amaethwyr yr Alban, ***No immediate uplift in CAP budget allocation,*** 8 November 2013 and *Union Seeks Commission Clarity on Convergene,* 12 November 2013
[83] Datganiad i'r Wasg Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig Gogleddd Iwerddon, ***O'Neill successfully defends CAP budget allocation, DARD press release***, 8 Tachwedd 2013

Mae Harry Sinclair, Llywydd Undeb Amaethwyr Ulster, hefyd wedi croesawu'r cyhoeddiad am y gyllideb fel penderfyniad teg a newyddion da i ffermwyr yng Ngogledd Iwerddon. Roedd yr Undeb wedi dadlau y dylai'r dyraniadau aros fel yr oeddent gan eu bod yn adlewyrchu'n gyffredinol gapasiti amaethyddol yr ardal y cawsant eu dyrannu iddynt. Dywedodd na ellid tanamcangyfrif pwysigrwydd y PAC i Ogledd Iwerddon o ran galluogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd fforddiadwy, creu swyddi, gofalu am gefn gwlad a chynnal cymunedau gwledig.[84]

## *6.6. Cymru*

Bydd Cymru yn cael cyllideb Colofn 1 o €322 miliwn y flwyddyn erbyn 2019 yn seiliedig ar brisiau cyfredol. Bydd hyn yn rhoi cyfran o 8.96% i Gymru o derfyn cyllideb y DU.  Caiff €355 ar gyfer ei rhaglen datblygu gwledig dros y cyfnod 2014-20.

Mae Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, wedi croesawu'r penderfyniad gan ei ddisgrifio fel y canlyniad gorau i Gymru. [85] Mae'r Gweinidog wedi dweud, er gwaetha'r ffaith ei fod yn gresynu at safbwynt Llywodraeth y DU yn y trafodaethau ar gyllideb yr UE, ei fod yn falch ei bod wedi penderfynu bod yn deg ar draws y DU.

Cyhoeddodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru ddatganiad ar y cyd gydag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Ulster (gweler adran 6. uchod) a oedd yn croesawu'r penderfyniad. Croesawodd Undeb Amaethwyr Cymru y cyhoeddiad hefyd.  Meddai Emyr Jones,  Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru:

> "We welcome Defra minister Owen Paterson's announcement today even though we are well aware that the overall budget has been cut by 12.6 per cent in real terms, It was imperative that Wales, at the very least, maintained the same proportion of CAP Pillar 1 monies that it currently benefits from and we are pleased that the union's lobbying and the Welsh Government's negotiations has resulted in a fair deal for farmers in Wales."[86]

---

[84] Datganiad i'r Wasg Undeb Amaethwyr Ulster, ***Confirmation that CAP budget share retained in Northern Ireland,*** 8 Tachwedd 2013
[85] Datganiad Cabinet Llywodraeth Cymru, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies, ***Cyllideb y Polisi Amaethyddol Cyffredin i Gymru 2014-2020,*** 8 Tachwedd 2013
[86] Datganiad Newyddion Undeb Amaethwyr Cymru, *FUW* ***welcomes retention of CAP funding allocation for Welsh farmers,*** 8 Tachwedd 2013

## 7. Gweithredu'r PAC yn y DU ac Iwerddon

Yn dilyn y cytundeb ar lefel yr UE mae Aelod-wladwriaethau bellach yn datblygu eu cynlluniau i'w weithredu. Yn y DU ac Iwerddon mae'r llywodraethau'n datblygu cynigion fel a ganlyn:

- Yn Lloegr amlinellodd Defra ei syniadau cychwynnol ym mis Awst 2013, a cyhoeddodd bapur ymgynghori ym mis Hydref 2013. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 28 Tachwedd 2013. .
- Cyhoeddodd Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon bapur ymgynghori ar 1 Hydref 2013. Mae'r papur yn amlinellu cynigion ar gyfer pecyn i weithredu'r PAC yng Ngogledd Iwerddon o 2015-20. Mae'r ymgynghoriad yn parhau tan 7 Ionawr 2014.
- Yn Iwerddon cynhaliodd yr Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2013, ac ar hyn o bryd mae'n ystyried yr ymatebion.
- Yn yr Alban mae Llywodraeth yr Alban wedi dweud y bydd yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar weithredu'r PAC tuag at ddiwedd 2013.[87]
- Yng Nghymru, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cychwynnol ar y Cynllun Datblygu Gwledig rhwng mis Chwefror a mis Mai 2013. Yna cyhoeddodd bapur ymgynghori arall ar daliadau uniongyrchol ym mis Gorffennaf 2013, sy'n amlinellu'r penderfyniadau yr oedd yn bwriadu eu gwneud i weithredu diwygio'r PAC. Mae'r ymgynghoriad yn parhau tan 30 Tachwedd 2013. Bwriedir cynnal ymgynghoriad arall ar gynllun datblygu gwledig newydd yng ngwanwyn 2014.

Mae'r tabl drosodd yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf ym mhob gwlad yn y DU ac yn Iwerddon.

[87] Llywodraeth yr Alban , **Scotland's CAP choices.** Datganiad i'r wasg 3 Hydref 2013; Pwyllgor Materion Gwledig,Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd Senedd yr Alban, **Adroddiad Swyddogol 18 Medi 2013**: Cols 2579-92; a Senedd yr Alban, Adroddiad Swyddogol 3 Hydref 2013: Cols 23303-59.

**Tabl 6- Gweithredu PAC 2014-20 yn y DU ac Iwerddon**

| | **Lloegr**[88] | **Iwerddon**[89] | **Gogledd Iwerddon**[90] | **Yr Alban**[91] | **Cymru**[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymhwysedd** | Mae tir cymwys yn debygol o gael ei ddiffinio yn yr un ffordd ag y caiff ei ddiffinio yn awr a bydd rhai nodweddion yn anghymwys.<br><br>Pennu trothwy yn ôl arwynebedd, yn hytrach na gwerth, i osgoi pennu trothwy is na'r hyn sy'n bodoli eisoes, ac eithrio ar gyfer rhostir.<br><br>**Isafswm maint ar gyfer hawliad i fod yn 5 hectar i sicrhau'r gwerth gorau am arian.** (Yr isafswm maint presennol ar gyfer | A ddylid ystyried tir lle nad yw glaswellt a phorthiant glas arall yn brif dyfiant yn laswelltir parhaol ac felly'n gymwys i gael taliadau uniongyrchol?<br><br>Os felly a ddylem gymhwyso cyfernod gostyngiad?<br><br>A ddylai cyfernod gostyngiad fod yn gymwys i laswelltir parhaol sydd wedi'i leoli mewn ardaloedd â chyfyngiadau naturiol? | Ni fydd llawer o wahaniaeth rhwng y diffiniad o dir sy'n gymwys i gael taliadau uniongyrchol a'r diffiniad o dan y system bresennol. Mae'r cytundeb yn cynnwys opsiwn penodol i'w gynnwys o fewn y diffiniad o laswelltir parhaol, tir y gellir ei bori ac sy'n rhan o arferion lleol sefydledig lle nad glaswellt a phorthiant glas arall yw'r prif dyfiant yn draddodiadol (h.y. grug pori). Mae Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig yn bwriadu defnyddio'r opsiwn hwn er mwyn i rug pori barhau i fodloni'r meini prawf cymhwysedd.<br>Nid yw Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig yn bwriadu gweithredu'r opsiwn a fyddai'n caniatáu cymhwyso cyfernod | Nid yw wedi cyhoeddi ymgynghoriad na mynegi barn gychwynnol eto | Dywedodd y Gweinidog y bydd yn defnyddio'r disgresiwn sydd ar gael iddo yn y rheoliadau i gynyddu **isafswm maint yr hawliad ar gyfer tir o 1 hectar i 3 hectar** ond ni fydd yn newid isafswm lefel yr hawliad o €100.<br><br>Ni roddwyd unrhyw wybodaeth am isafswm y cyfraddau stocio. |

[88] Defra, *Implementation of CAP reform in England: Consultation,* Hydref 2013Defra, *CAP reform in England: Status report on Direct Payments*, 13 Awst 2013, a *Common Agricultural Policy: how will it affect you?* 13 Hydref 2013
[89] Nid yw'r cynigion ar gyfer gweithredu PAC 2014-2020 wedi'u penderfynu eto. Roedd papur ymgynghori 29 Gorffennaf 2013 ar ffurf holiadur a gofynnodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a'r Môr am ymatebion i'r cwestiynau. Rhoddir crynodeb o'r cwestiynau hyn yn Nhabl 4.
[90] Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon, *Consultation on Policy Options Arising from the reform of the CAP (Pillar 1 Direct Payments),* 1 Hydref 2013
[91] Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban
[92] Llywodraeth Cymru, *Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin - Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr,* 23 Gorffennaf 2013

| | Lloegr[88] | Iwerddon[89] | Gogledd Iwerddon[90] | Yr Alban[91] | Cymru[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| | hawliad ar gyfer y Cynllun Taliad Sengl yn Lloegr yw 1 hectar)<br><br>Caiff hawliadau ar gyfer y Cynllun Taliad Sengl (fel ar 31 Rhagfyr 2014) eu trosglwyddo i'r cynllun newydd. | | gostyngiad i laswelltir parhaol mewn ardaloedd â chyfyngiadau yn sgil amodau hinsawdd, ansawdd y pridd, tir serth a chyflenwad dŵr at ddibenion sefydlu hawliau yn 2015.<br><br>**Mae Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig yn bwriadu gweithredu isafswm o 5 hectar ar gyfer sefydlu hawliau a hawliadau cymwys** | | |
| **Ffermwyr actif** | Bydd yn mabwysiadu trothwy o €5,000 ar gyfer taliad uniongyrchol blynyddol (yr uchaf a ganiateir) ar gyfer cymhwyso'r "rhestr negyddol" o fathau o fusnesau a fydd yn anghymwys i gael taliadau uniongyrchol. | A ddylid ychwanegu endidau eraill at y 'rhestr negyddol' er mwyn eu heithrio o'r taliadau uniongyrchol? | Mae ymgynghoriad Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig yn cadw'r opsiynau ar agor<br><br>Yn ceisio cael cytundeb neu wrthod y cynigion na ddylid ychwanegu busnesau ychwanegol nad ydynt yn fusnesau amaethyddol at y rhestr negyddol.<br>Mae hefyd yn gofyn am sylwadau ynghylch ar ba lefel y dylid pennu'r trothwy ar gyfer esemptio busnesau o'r prawf 'ffermwr actif' (gall amrywio o €0 i €5,000) | Mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu defnyddio'r rheolau gweithgarwch sylfaenol mewn ffordd a fydd yn eithrio "ffermwyr sliperi" ond yn caniatáu ffermwyr mynydd â systemau helaeth (ac felly â chyfraddau stoc isel) i barhau i gael taliadau | Nid oes cynigion ar gyfer ychwanegu at y rhestr gyffredin o weithgareddau busnes anghymwys.<br><br>Cymorth i ganiatáu i fusnes anghymwys sy'n cael llai na €5,000 i barhau i gael llai o |

| | Lloegr[88] | Iwerddon[89] | Gogledd Iwerddon[90] | Yr Alban[91] | Cymru[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'n croesawu sylwadau ond nid yw'n bwriadu defnyddio'r opsiwn o ychwanegu at y "rhestr negyddol"<br><br>Cred Defra y byddai hyn yn rhoi beichiau gweinyddol ychwanegol ar yr Asiantaeth Taliadau Gwledig ac ar y ffermwr, yn arbennig os bydd yn cwmpasu nifer fawr o ffermwyr dilys y mae'n rhaid iddynt brofi eu cymhwysedd. | | | | daliadau. |
| **Cydgyfeirio Mewnol** | Cadw'r tri rhanbarth fel y'u diffinnir ar hyn o bryd i osgoi ymarfer mapio drud a chymleth a chymhlethdod diangen wrth bontio o'r system taliadau uniongyrchol newydd | Mae'r cwestiynau y mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a'r Môr yn eu codi ynghylch Gwerth Uned Cychwynnol hawliadau yn 2015 yn cynnwys:<br><br>A ddylem gynyddu pob | Nid yw Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig yn bwriadu dilyn y dull "twnnel Iwerddon", h.y. cynyddu gwerth uned cychwynnol yr hawliadau hynny sydd islaw'r cyfartaledd rhanbarthol hanner | Mae Llywodraeth yr Alban wedi cynnal gwaith modelu manwl ar ystod o opsiynau ar gyfer gweithredu cynllun y taliad sylfaenol ar sail arwynebedd. | Ffefrir system dau gategori tir ar gyfer taliadau uniongyrchol a chwblhau'r cyfnod pontio i'r dull hwn erbyn 2019.<br><br>Ceir cynigion ar gyfer symud canran gyfartal |

| | Lloegr[88] | Iwerddon[89] | Gogledd Iwerddon[90] | Yr Alban[91] | Cymru[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu goblygiadau dau opsiwn. Opsiwn 1: Dim newid - cadw'r dosbarthiad rhanbarthol presennol<br><br>Opsiwn 2: Cynyddu taliadau uniongyrchol ucheldir. Yn ei hanfod, digolledu ffermwyr mynydd drwy symud rhywfaint o'r taliadau sylfaenol oddi wrth Ardaloedd dan Anfantais Fawr a rhostir i gydnabod manteision datblygu cynaliadwy a gwasanaethau ecosystem er gwaethaf cynhyrchiant is. | hawliadau gyda Gwerth Uned Cychwynnol o <100% o'r cyfartaledd cenedlaethol o leiaf draean o'r gwahaniaeth erbyn 2019 ynteu a ddylid defnyddio 90% fel trothwy?<br><br>Ar ba lefel y dylai isafswm y taliad o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol fod yn sefydlog?<br><br>A ddylai Iwerddon gymhwyso uchafswm gostyngiad erbyn 2019 o 30% o Werth Uned Cychwynnol (2015) ar gyfer y ffermwyr hynny y bydd eu taliadau'n lleihau dros gyfnod y cynllun | y gwahaniaeth rhwng y gwerth cychwynnol a 100% o'r gwerth rhanbarthol, tra'n parchu'r amod na ddylai unrhyw hawl gael gwerth uned sy'n is na 60% o'r cyfartaledd rhanbarthol erbyn 2019.<br><br>Byddai hyn yn cael ei ariannu drwy ddefnyddio gostyngiad llinellol i gyfran gwerth uned yr hawliadau sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Y canlyniad fyddai symud gwerth pob hawliad hanner ffordd tuag at system cyfradd safonol erbyn 2019 - yn unol â safbwynt polisi'r Adran drwy gydol y trafodaethau, sef y dylai'r taliadau ardal gael eu cyflwyno dros gyfnod trosiannol o 10 mlynedd. | Mae consensws yn dod i'r amlwg ar ddefnyddio dau neu dri chategori o daliadau. Byddai'r ddau gategori yn dir âr / glaswelltir parhaol a thros dro; a thir pori garw, a byddai'r tri chategori ar gyfer tir âr a glaswelltir dros dro; glaswelltir parhaol; a thir pori garw. Yn y model tri math o dir, byddai taliadau'n cael eu pwysoli i sicrhau bod y taliadau uchaf yn cael eu rhoi i'r math dros dro o dir (gyda'r bwriad o gefnogi cynhyrchu eidion, gan mai cynhyrchwyr eidion sy'n debygol o fod fwyaf ar eu colled yn sgil trosglwyddo i daliadau arwynebedd, a ffermio'r tir dros dro hwn).<br><br>Gan fod manylion terfynol diwygio'r PAC wedi'u cytuno bellach, mae'r Llywodraeth yn gwneud rhagor o waith modelu ar yr opsiynau hyn. | o 20 y cant o daliadau hanesyddol i daliadau arwynebedd ym mhob blwyddyn hyd 2019.<br><br>Nid oes unrhyw fwriad i gyfyngu ar golledion ffermydd unigol i 30 y cant.<br><br>Ni nodwyd yr angen am daliad atodol ar hectarau cyntaf ffermydd. |

| | Lloegr[88] | Iwerddon[89] | Gogledd Iwerddon[90] | Yr Alban[91] | Cymru[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cydnabod hefyd y byddai cyllid i ffermwyr ucheldir drwy fynediad i'r cytundebau Stiwardiaeth Lefel Mynediad Ucheldiroedd yn dod i ben yn nhymor nesaf y PAC. | | | Mae'r Llywodraeth wedi dweud ei bod yn ffafrio cyflwyno taliadau ardal yn raddol, a'u cyflwyno'n llawn erbyn 2019. | |
| **Taliadau gwyrdd** | Ystyriwyd yr opsiwn i weithredu cynllun ardystio cenedlaethol i ddechrau fel cyfle i gynnnig mesurau gwyrdd sy'n fwy addas i Loegr.<br><br>Fodd bynnag, penderfynwyd y dylai'r dull gweithredu cyffredinol ar gyfer taliadau gwyrdd lynu'n glos wrth y mesurau a amlinellir yn y Rheoliad ar daliadau uniongyrchol. | A ddylai'r taliad gwyrdd fod yn gyfradd safonol neu'n ganran sefydlog o Gynllun Taliad Sylfaenol ffermwyr?<br><br>A ddylai'r opsiwn o ddefnyddio 'arferion cyfatebol' i ddiwallu gofynion mesurau gwyrdd gael ei gyfyngu? | Mae Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig yn bwriadu gweithredu'r taliad gwyrdd ar ffurf canran o werth hawliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol sy'n cael eu hawlio gan bob hawlydd bob blwyddyn. Golyga hyn y byddai gwerth y taliad gwyrdd ar gyfer pob hawlydd yn cynyddu dros amser tuag at daliad ar gyfradd safonol fesul hectar yn unol â chynnydd hawliadau Cynllun Taliad Sylfaenol yr hawlydd. | Mae'r Llywodraeth yn ystyried a ddylai ddatblygu'r cynllun gwyrdd yn seiliedig ar fesurau cyfwerthedd, yn arbennig os gellir cynllunio'r rhan i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ynteu a ddylai weithredu'r mesurau gwyrdd fel y nodir yn y rheoliadau. | Ffefrir gweithredu'r tri opsiwn gwyrdd fel y nodir yn y rheoliad heb unrhyw opsiynau cyfwerthedd.<br><br>Bydd Glastir, y cynllun amaeth-amgylchedd presennol, yn gweithredu ar lefel sy'n uwch na'r mesurau gwyrdd. |

| | Lloegr[88] | Iwerddon[89] | Gogledd Iwerddon[90] | Yr Alban[91] | Cymru[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae hyn yn cynnwys y gofynion arallgyfeirio cnydau er bod y Llywodraeth yn credu mai cymharol fach yw'r budd a ddaw ohonynt.<br><br>Credir y bydd y risgiau ychwanegol o ran cyflawni, cymhlethdod a'r risgiau o gosb ariannol yn gwrthbwyso'r manteision ychwanegol yn sgil y Cynllun Ardystio. | A ddylid defnyddio cynllun ardystio cenedlaethol i alluogi ffermwyr i ddiwallu eu gofynion mesurau gwyrdd? | Mae Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig yn bwriadu monitro'r gymhareb glaswelltir parhaol ar lefel ranbarthol (Gogledd Iwerddon) a pheidio â gorfodi cyfyngiadau ar lefel daliadau unigol<br><br>Awgryma Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig na fydd yn defnyddio'r opsiwn 'cyfwerthedd' | | |
| **Cynllun y Ffermwyr Bach** | Dim Cynllun y Ffermwyr Bach. | A ddylid gweithredu Cynllun y Ffermwyr Bach?<br><br>Os felly, a ddylai ffermwyr sy'n cael taliadau <€1250 gael eu cynnwys yn awtomatig? | Nid yw Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig yn bwriadu gweithredu Cynllun y Ffermwyr Bach os pennir isafswm terfyn yr hawliad yn 5 hectar. | | Ni fydd Cynllun y Ffermwyr Bach yn cael ei fabwysiadu. |

| | Lloegr[88] | Iwerddon[89] | Gogledd Iwerddon[90] | Yr Alban[91] | Cymru[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried y dylai ffermwyr sy'n cael arian cyhoeddus fod yn esempt o'r gofynion trawsgydymffurfio, ac ni ddylai adnoddau gael eu neilltuo ar gyfer gweithredu Cynllun y Ffermwyr Bach a fyddai'n arwain at y canlyniad hwnnw. | Sut y dylid cyfrifo taliad? | Os na phennir 5 hectar fel terfyn maint gallai Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig fwrw ymlaen â Chynllun y Ffermwyr Bach a byddai'n fwy na thebyg yn cynnig talu swm sy'n gyfartal i gyfanswm gwerth y taliadau uniongyrchol y byddai'r ffermwr wedi'u derbyn fel arall bob blwyddyn os na fyddai'n rhan o Gynllun y Ffermwr Bach. Byddai'r uchafswm taliad fesul daliad yn cael ei bennu ar €1,250 ac ni fyddai'r opsiwn i dalgrynnu taliadau i €500 yn cael ei gymhwyso | | |

| | Lloegr[88] | Iwerddon[89] | Gogledd Iwerddon[90] | Yr Alban[91] | Cymru[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynllun Ffermwyr Ifanc** | Bydd y Llywodraeth yn datblygu Cynllun Ffermwyr Ifanc gyda'r rhai sy'n gymwys a byddent yn cael taliad ychwanegol sy'n cyd-fynd â 25% o'u taliad o dan gynllun y taliad sylfaenol ar gyfer pum mlynedd gyntaf gweithrediad eu daliad.<br><br>Ymgynghorir ar nifer yr hawliau neu'r hectarau y gellir gwneud hawliad ar eu cyfer: 25 hawl (terfyn isaf), 90 hawl (terfyn uchaf), opsiwn arall, neu uchafswm o 54 hawl (maint cyfartalog fferm yn y DU). Ffefrir peidio â chyflwyno meini prawf ychwanegol ar hyn o bryd i ddangos sgiliau neu hyfforddiant ychwanegol. | Noda'r Gweinidog y bydd ffermwyr ifanc yn cael swm atodol o 25% ar y 32 hectar cyntaf (maint cyfartalog fferm)<br><br>Pa % o'r terfyn cenedlaethol (o fewn ffiniau<br><br>penodol) a ddylai fod yn berthnasol i'r Cynllun Ffermwyr Ifanc?<br><br>A ddylid cynnwys gofyniad i gael sgiliau / addysg priodol?<br><br>Sut y dylid cyfrifo'r taliad? | Mae Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig yn bwriadu gweithredu'r Cynllun Ffermwyr Ifanc gorfodol fel swm atodol o 25% o daliad cyfartalog y ffermwr ifanc ei hun fesul hectar.<br><br>Pennu'r terfyn uchaf yn 90 hectar (yr uchafswm a ganiateir).<br><br>Gwneud cymhwyster Lefel III mewn amaethyddiaeth (neu bwnc â chysylltiad agos â'r maes<br><br>yn un o ofynion cymhwyso ar gyfer y Cynllun Ffermwyr Ifanc. | | Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi manylion sut y bydd y cynllun gorfodol yn gweithredu eto.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd hefyd yn darparu cymorth i Ffermwyr Ifanc drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig. |

| | Lloegr[88] | Iwerddon[89] | Gogledd Iwerddon[90] | Yr Alban[91] | Cymru[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae hyn yn bennaf oherwydd costau gweinyddol dilysu a'r anhawster i grynhoi'r sgiliau anffurfiol y mae'r rhai sy'n gweithio ar ffermydd wedi'u meithrin o oedran cynnar. | | | | |
| **Cymorth cysylltiedig** | Ni fydd unrhyw gynlluniau cymorth cysylltiedig yn cael eu hailgyflwyno.<br><br>Polisi llywodraethau olynol fu gwrthwynebu'r defnydd o daliadau cysylltiedig ac nid oes yr un o'r opsiynau mewn systemau PAC blaenorol wedi cael eu gweithredu yn Lloegr. | Yn ystyried ailgyflwyno cymorth cysylltiedig o dan Golofn I a II. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto | Awgryma Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig er na fyddai'r dystiolaeth yn cefnogi cyflwyno opsiwn cymorth cysylltiedig, ei bod yn gofyn am sylwadau ynghylch a ddylid ei ddefnyddio, ym mha sectorau, a chanran y terfyn y gellid ei dyrannu iddo. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto. | Mae Llywodraeth yr Alban wedi gofyn am eglurhad gan Lywodraeth y DU ynghylch a all ddefnyddio 8% o derfyn y DU ar gyfer cymorth cysylltiedig (a pharhau i wneud taliadau o derfyn yr Alban), a fyddai'n caniatau iddo ddefnyddio swm sylweddol fwy o arian ar gyfer cymorth cysylltiedig.<br><br>Os dim ond 8% o derfyn yr Alban y gall Llywodraeth yr Alban ei ddefnyddio mae wedi dweud ei fod yn ystyried defnyddio'r swm llawn i gefnogi'r sector eidion. | Ffefrir peidio â defnyddio'r opsiwn cymorth cysylltiedig. |

| | **Lloegr**[88] | **Iwerddon**[89] | **Gogledd Iwerddon**[90] | **Yr Alban**[91] | **Cymru**[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Swm atodol ar gyfer Ardal Llai Ffafriol / Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol** | "Meddwl agored" o ran mabwysiadu'r swm atodol ar gyfer Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol ond yn credu bod yr Ardaloedd dan Anfantais Fawr yn gadarn o ran adlewyrchu amodau ffermio mynydd anodd ac felly'n parhau i fod yn ddilys.<br><br>Ystyried cyflawni'r un effaith h.y. mwy o gymorth drwy addasu'r symiau a ddyrennir ar gyfer pob rhanbarth taliad uniongyrchol oherwydd mae'r tir sydd wedi'i fapio fel Ardaloedd dan Anfantais Fawr yn debyg i Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol. | A ddylai fod swm atodol ar gyfer ardaloedd â chyfyngiadau naturiol o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol?<br><br>Os felly, pa ganran o'r terfyn cenedlaethol y dylid ei ddyrannu i'r cynllun?<br><br>A ddylid pennu uchafswm arwynebedd (hectarau) ar ei gyfer ac os felly, beth ddylai hynny fod? | Mae Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig yn cynnig ei bod yn well mynd ar drywydd cymorth Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol drwy Golofn 1.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r Adran yn croesawu barn ar y dull o gefnogi'r ardaloedd hyn yn ogystal â barn ynghylch pa ganran y dylid cwtogi taliadau uniongyrchol er mwyn ariannu Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol drwy Golofn I (5% yw'r uchafswm) | | Ffefrir darparu unrhyw gymorth ar gyfer Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol drwy Golofn 2. |

| | **Lloegr**[88] | **Iwerddon**[89] | **Gogledd Iwerddon**[90] | **Yr Alban**[91] | **Cymru**[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Capio** | Yr opsiwn a ffefrir yw'r gostyngiad lleiaf posibl ac ailgylchu unrhyw arian a godir i'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Ffefrir *peidio* â gweithredu'r opsiwn taliad ailddosbarthu.<br><br>Ceisio lleihau'r ffactorau sy'n ystumio'r penderfyniadau y mae ffermwyr yn eu gwneud am reoli eu ffermydd i osgoi cael effaith andwyol ar gystadleurwydd y diwydiant ffermio. | A ddylai Iwerddon gymhwyso'r taliad ailddosbarthu?<br><br>Os felly, pa ganran o'r terfyn cenedlaethol y dylid ei ddyrannu i'r cynllun? Ac ar gyfer faint o hectarau? | Cynnig Adran yr Amgylchedd a Datblygu Gwledig i gapio taliadau o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol ar €150,000 fesul hawlydd - ni fyddai unrhyw fusnes yn cael mwy na €150,000 o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol gan y byddai gostyngiad o 100% yn gymwys i symiau uwchlaw'r trothwy hwn. | Mae'r Llywodraeth wedi dweud y dylid mynd i'r afael â thaliadau unigol enfawr, ond gall y rhain leihau beth bynnag yn sgil symud i daliadau arwynebedd. Mae'n ystyried rhagoriaethau capio ymhellach y tu hwnt i'r 5% o leihad cyson fesul blwyddyn yn y cymhorthdal, a'r opsiynau i gyflwyno taliadau atodol am yr "hectarau cyntaf". | Cynnig i fabwysiadu capio graddol uwchlaw €200,000. Byddai ffermwyr yng Nghymru sy'n cael taliadau o €150,000-200,000 yn cael eu capio 15 y cant, bydd y rhai sy'n cael rhwng €200,000-250,000 yn cael eu capio 30 y cant, bydd y rhai sy'n cael €250,000-300,000 yn cael eu capio 55 y cant a'r rhai sy'n cael €300,000 yn cael eu capio 100 y cant. |

| | Lloegr[88] | Iwerddon[89] | Gogledd Iwerddon[90] | Yr Alban[91] | Cymru[92] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trosglwyddiadau rhwng y colofnau** | Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn ffafrio trosglwyddiad modiwleiddio llawn (15%) o Golofn 1 i Golofn 2 ond mae'n ymgynghori ar fodelau o 3 senario: 1%. 9% (trosglwyddiad yn 2013) a 15%.<br><br>Nid yw'n bwriadu trosglwyddo'r arian o Golofn 2 i Golofn 1. | A ddylai Iwerddon drosglwyddo arian o Golofn 1 i Golofn 2 neu i'r gwrthwyneb? Os felly, faint y dylid ei drosglwyddo? | Mae trosglwyddo o Golofn 1 i Golofn 2 yn edrych yn fwy tebygol na throsglwyddo o Golofn 2 i Golofn 1 oherwydd y lleihad tebygol yng nghyllideb Colofn 2. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ond bydd yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr opsiynau polisi ar gyfer Colofn 1 a Cholofn 2. | Oherwydd dyraniad Colofn 2 "truenus o fach" yr Alban, mae Llywodraeth yr Alban wedi penderfynu na fydd yn trosglwyddo arian o Golofn 2 i Golofn 1. Bydd yn cynnal ymgynghoriad bach ar wahân ar faint i'w drosglwyddo o Golofn 1 i Golofn 2 cyn diwedd 2013 | Mae'r Gweinidog sy'n gyfrifol wedi dweud ei fod yn bwriadu cefnogi trosglwyddo arian o Golofn 1 i Golofn 2 ond y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y trosglwyddiadau rhwng y Colofnau ym mis Ionawr 2014. Nid yw'r Gweinidog yn bwriadu cefnogi trosglwyddo arian o Golofn 2 i Golofn 1. |

## 8. Dyfodol y PAC

Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi dweud y tu hwnt i Ionawr 2015, y bydd yn edrych ymlaen at y cylch nesaf o drafodaethau ar y PAC; yn benodol beth y gellir ei wneud i sicrhau gwell cynigion gan y Comisiwn ar gyfer y rheoliadau PAC nesaf ar ôl 2020.[93]

Nid yw'r PAC ar lwybr diwygio amlwg. Ymddengys mai lleihad mewn cymorthdaliadau cyffredinol a thaliadau datgysylltiedig a chyflawni amcanion amgylcheddol yw'r themâu craidd. Fodd bynnag, ni chânt eu cefnogi'r unfrydol i'r un graddau (hyd yn oed o fewn y DU) ac maent yn amodol ar lanw a thrai gwleidyddol proses drafod y PAC. Bydd effaith ymarferol diwygiadau 2014-2020 y cytunir arnynt yn llywio'r camau nesaf ac felly hefyd masnach y byd, cymorth ffermio a chynhyrchu bwyd, sy'n feysydd sy'n newid yn gyflym.

Dengys adroddiad diweddaraf y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar gymorth i ffermwyr fod cymorth o'r fath ym mhrif wledydd ffermio'r byd wedi cynyddu yn 2012, gan fynd yn groes i duedd hirdymor o ostyngiad a gwyrdroi'r cymorth isaf erioed a gofnodwyd yn 2011.[94] Gwelwyd cynnydd mewn cymorth i ffermwyr (fel canran o dderbyniadau cyffredinol ffermwyr) mewn economïau newydd allweddol fel Tsieina (17%), Indonesia (21%) a Kazakhstan (15%) gan ddarparu'r cynnydd mwyaf mewn cymorth gwladwriaethol yn ystod 2012 wrth i lywodraethau ganolbwyntio ar bolisïau hunangynhaliol i hybu cynhyrchu amaethyddol. Noda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd nad yw diwygiadau'r PAC y cytunwyd arnynt yn wahanol iawn i gyfeiriad neu faint presennol cymorth i ffermwyr yn y bloc 29 gwlad. At ei gilydd mae cymorth yr UE wedi cynyddu o 19 i 19% yn 2012.[95]

Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn gweld symudiad cyffredinol oddi wrth gymorth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chynhyrchu, ond bod cymorth sy'n ystumio cynhyrchu a masnach yn parhau i gynrychioli tua hanner cyfanswm y cymorth. Er bod gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn datgysylltu cymorth oddi wrth gynhyrchu a hynny'n gynyddol, mae marchnadoedd newydd yn dibynnu mwy ar fesurau sy'n diogelu ffiniau a chymorth o ran prisiau'r farchnad sy'n trethu defnyddwyr.

---

[93] Memorandwm gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ymchwiliad Pwyllgor Bwyd a Materion Gwledig Tŷ 'r Cyffredin i weithredu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin 2014-2020, 18 Hydref 2013
[94] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ***Agricultural Policy: Monitoring and Evaluation 2013,*** Chwefror 2013
[95] Ystafell Newyddion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ***Support to agriculture rising after hitting historic lows OECD says,*** 18 Medi 2013

Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn parhau i bwyso am leihad mewn cymorthdaliadau ac mae wedi nodi'r duedd a ffefrir ganddo ar gyfer y dyfodol o ran cymorth i ffermwyr:

- Mwy o fuddsoddiad cyhoeddus ar gyfer y sector ffermio cyfan. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn credu bod polisi arloesi yn allweddol i wella cynhyrchiant ffermydd gan amlygu bod buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu, trosglwyddo technoleg, addysg a gwasanaethau ymestyn a chynghori yn arwain at enillion cymdeithasol mawr yn yr hirdymor.
- Datgysylltu cymorth i ffermwyr a chynhyrchu ymhellach. Noda'r adroddiad fod hyn yn hanfodol ac mae'n dweud bod cryn gyfle i ailgyfeirio gwariant tuag at nodau penodol fel y rhai sy'n gysylltiedig ag incwm isel, lles cymunedau gwledig a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae diwygiadau presennol y PAC wedi symud tuag at y tueddiadau hyn yn hytrach nag oddi wrthynt ond mae mwy o gwestiynau nag o atebion ynghylch diwygio yn y dyfodol:[96]

- I ba raddau y bydd cymorthdaliadau uniongyrchol yn goroesi diwygiad arall? A fydd y gofynion gwyrdd yn cwmpasu cyfran fwy o daliadau Colofn 1 wrth i'r Comisiwn gadw at yr egwyddor o sicrhau bod y taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud am ddarparu nwyddau cyhoeddus? Beth fydd dylanwad yr Aelod-wladwriaethau ychwanegol sy'n dod o dan ofynion llawn y PAC yn y blynyddoedd i ddod (e.e. Bwlgaria a Rwmania yn 2016)? Pa mor ynysig yw Llywodraeth y DU o ran yr awydd i ddiwygio'r PAC yn radical a chael sector ffermio mwy cystadleuol sy'n dibynnu llai ar gymorthdaliadau?
- Ai Colofn 2 yw'r ffordd o ddiogelu iechyd yr economi wledig yn y dyfodol yn hytrach na gorddibyniaeth ar gymorthdaliadau uniongyrchol. A fydd y diwygio hwn yn helpu i ddangos pa ddull sy'n gweithio orau? Bydd yr hyblygrwydd i drosglwyddo arian rhwng Colofn 1 a Cholofn 2 yn profi a ellir cyflawni mwy o fanteision economaidd drwy gefnogi datblygu gwledig yn gyffredinol ac nid ffermio yn benodol.
- Ai'r hyblygrwydd hwn o ran gweithredu a roddir i Aelod-wladwriaethau yn y diwygiad PAC  hwn fydd ei lwyddiant ac felly a gaiff ei efelychu ac/neu ei gynyddu mewn diwygiadau yn y dyfodol? Ynteu a fydd PAC wedi'i deilwra ym mhob Aelod-wladwriaeth yn creu sefyllfa anghyfartal iawn? A fydd symud tuag at daliadau'n seiliedig ar arwynebedd ym mhob Aelod-wladwriaeth, a chydgyfeirio allanol yn lliniaru'r effaith hon?

---

[96] Materion a chwestiynau wedi dod o: European Movement ***The future EU budget – The Agricultural Dimension***, Medi 2010; EurActiv.com, ***How to kill off successful environmental schemes in Europe's agricultural policy***, 3 Medi 2013

- Mae'r diwygiadau diweddar i'r PAC wedi caniatáu i'r trefniadau gweithredu gael eu rhanbartholi o fewn Aelod-wladwriaethau, a gwnaethpwyd hyn yn y DU lle mae gweinyddiaethau datganoledig yn datblygu eu polisi ei hunain. Mae hyn yn cael ei ymgorffori fwyfwy yn y PAC. A fydd cyfle i gynnwys hyblygrwydd rhanbarthol ychwanegol mewn diwygiadau yn y dyfodol?
- A fydd y trefniadau gweithio traws-sector yn dylanwadu ar y diwygiad nesaf i'r PAC gyda meddylfryd cydgysylltiedig o ran cefnogi'r sector amaethyddol?
- Gan fod y DU yn derbyn taliad PAC sy'n debyg i gyfartaledd y DU, dim ond i raddau bach iawn y mae'r DU yn elwa ar gydgyfeirio allanol ac felly bydd yn parhau i fod yn gyfrannwr net sylweddol.  Sut y bydd hyn yn effeithio ar ddadl ad-daliad y DU?
- Yn dilyn yr etholiadau Ewropeaidd yn 2014 a phenodi Comisiwn newydd, sut y bydd Senedd Ewrop a Chomisiynydd Amaethyddiaeth nesaf yr UE yn dylanwadu ar ddiwygiad nesaf y PAC?
- A fydd adolygiad canol tymor o'r diwygiadau hyn cyn 2020?
- Beth fyddai effaith pleidlais 'na' pe cynhelid refferendwm yn y DU ar aelodaeth o'r UE?
- Beth fyddai effaith annibyniaeth yr Alban ar raglenni presennol PAC a rhaglenni PAC y dyfodol o ran yr Alban a gweddill y DU?
- A fydd ffocws cynyddol ar arloesi yn y PAC wrth i Aelod-wladwriaethau eu hunain edrych yn gynyddol ar arloesi fel rhan o'u rhaglen Colofn 2?
- A fydd y ffaith bod yr amgylchedd wedi'i ddiraddio ymhellach yn gorfodi'r Comisiwn i ailfeddwl am y PAC ar ôl 2020?
- Beth fydd dylanwad Sefydliad Masnach y Byd a thueddiadau rhyngwladol mewn amaethyddiaeth ar gyfeiriad y PAC?
- A fydd materion/ystyriaethau diogelwch bwyd yn fwy amlwg yn ystod y blynyddoedd i ddod ac os felly sut y bydd hyn yn effeithio ar y PAC presennol a'r PAC yn y dyfodol?

**Atodiad 1 Rhestr termau y PAC** [97]

| Term neu fyrfodd | Ystyr/diffiniad |
|---|---|
| Ffermwr actif | Yn dilyn rhai pryderon ar lefel yr UE ynghylch a yw taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud i 'ffermwyr dilys', bydd prawf ffermwr actif dau ran yn cael ei gymhwyso yn awr.<br><br>Gall Aelod-wladwriaethau bennu isafswm gofynion gweithgarwch (e.e. isafswm cyfradd stoc) ar gyfer tir sy'n naturiol mewn cyflwr sy'n addas ar gyfer pori neu dyfu cnydau<br><br>Mae rhestr o weithgareddau nad ydynt yn gymwys ar gyfer taliadau PAC wedi cael ei llunio sy'n berthnasol i'r UE cyfan. Mae hyn yn cynnwys meysydd awyr, gwasanaethau rheilffordd, gweithfeydd dwr, eiddo tiriog a meysydd chwaraeon. Gall Aelod-wladwriaethau ychwanegu at y rhestr hon. |
| Gweithgarwch amaethyddol | Mae "gweithgarwch amaethyddol" yn golygu:<br>• cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion amaethyddol gan gynnwys cynaeafu, godro, bridio anifeiliaid a chadw anifeiliaid at ddibenion ffermio, neu<br>• cadw ardal amaethyddol mewn cyflwr sy'n ei gwneud yn addas ar gyfer pori neu dyfu heb unrhyw gamau paratoi penodol y tu hwnt i ddulliau a pheiriannau amaethyddol arferol traddodiadol, yn seiliedig ar feini prawf a bennwyd gan Aelod-wladwriaethau ar sail fframwaith a sefydlwyd gan y Comisiwn, neu<br>• gyflawni isafswm gweithgaredd, i'w bennu gan Aelod-wladwriaethau, ar ardaloedd amaethyddol sy'n cael eu cadw'n naturiol mewn cyflwr sy'n addas ar gyfer pori neu dyfu |
| Ardal amaethyddol | Unrhyw ardal sy'n cynnwys tir âr, glaswelltir parhaol a thir pori parhaol neu gnydau parhaol |
| Ardal â Chyfyngiadau Naturiol | Mae hyn yn disodli'r dosbarthiad tir Ardaloedd Llai Ffafriol a chaiff ei bennu drwy ddefnyddio meini prawf bioffisegol penodol gan gynnwys hinsawdd, pridd a llethr |

[97] Mae'r diffiniadau yn y rhestr termau yn seiliedig ar y rhai a roddir yn rhestr termau PAC y Comisiwn Ewropeaidd Noder fod rhai termau wrthi'n cael eu hadolygu ers diwygio'r PAC ym mis Mehefin 2013

| | |
|---|---|
| Tir âr | Tir ar gyfer cynhyrchu cnydau neu ardaloedd sydd ar gael i gynhyrchu cnydau ond sydd wedi'i adael yn dir braenar (gan gynnwys neilltir) yn y flwyddyn bresennol neu o fewn y pum mlynedd flaenorol |
| Cynllun y Taliad Sylfaenol | Elfen allweddol o'r pecyn PAC newydd sy'n disodli'r Taliad Sengl presennol. |
| PAC | Y Polisi Amaethyddol Cyffredin - Dyma'r set o ddeddfwriaeth ac arferion a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd i ddarparu polisi cyffredin, unedig ar amaethyddiaeth. Ei nod yw sicrhau y gellir cynnal amaethyddiaeth dros yr hirdymor a'i roi wrth wraidd cefn gwlad byw. |
| Archwiliad Iechyd y PAC | Mesurau y cytunwyd arnynt gan Gyngor Amaethyddiaeth yr UE yn 2008 i foderneiddio a symleiddio'r PAC a dileu cyfyngiadau ar ffermwyr |
| Capio | Mae capio yn cyfeirio at y cyfyngiad ar y cymorth y gall unrhyw fferm unigol ei gael gan Gynllun y Taliad Sylfaenol Mae'r arian sy'n cael ei "arbed" o dan y dull hwn yn aros yn yr Aelod-wladwriaeth/rhanbarth dan sylw ac yn cael ei drosglwyddo i'r amlen Datblygu Gwledig |
| Cydbenderfynu | Ers i Gytuniad Lisbon ddod i rym fe'i gelwir yn 'weithdrefn ddeddfwriaethol gyffredin', Mae'r term cydbenderyfnu yn disgrifio'r brif weithdrefn y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei defnyddio i lunio cyfreithiau. Mewn termau syml mae hyn yn golygu bod angen cydsyniad Senedd Ewrop a Chygnor yr Undeb Ewropaidd ar gynigion deddfwriaethol er mwyn iddynt ddod yn gyfraith |
| Cyllido ar yr y cyd: | Cyllido ar y cyd: Mae deddfwriaeth yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau, neu ranbarthau, gyfrannu cyllid o'r Trysorlys cenedlaethol (arian trethdalwyr) yn ychwanegol at gyllid yr UE am bob hawliad a wnaed gan y buddiolwyr. Cyfeirir at y cyfraniadau cenedlaethol a chan yr UE fel y raddfa cyllido ar y cyd. Mae'r lefel o gyllid cenedlaethol sydd ei hangen yn dibynnu ar y gweithgarwch a ariennir a |

| | |
|---|---|
| | ffynhonnell y cyllid. Mae'r cyfraddau ar gyfer y PAC yn rhan o gytundeb cyllideb yr UE. Bellach, nid oes rhaid i Aelod-wladwriaethau gyllido trosglwyddiad o Golofn 1 i Golofn 2 ar y cyd.[98] |
| Cymorth Cysylltiedig | Taliad sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag allbwn cynnyrch amaethyddol penodol |
| Trawsgydymffurfio | Er mwyn cael taliadau uniongyrchol a mathau eraill o gymorth ariannol, mae'n ofynnol i ffermwyr gydymffurfio â rhai o ddeddfwriaethau presennol yr UE yn ymwneud, inter alia, â diogelwch bwyd, lles anifeiliaid a'r amgylchedd. Rhaid iddynt hefyd gadw eu tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da. Rhoddir diffiniad cyffredinol o Gyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da ar lefel yr UE a gall Aelod-wladwriaethau ei gymhwyso i amodau ffermio lleol |
| Lleihad cyson fesul blwyddyn yn y cymhorthdal | Lleihad yn y cymorth a roddir uwchlaw trothwy(on) penodol taliadau PAC fesul fferm |
| Taliadau Uniongyrchol | Cymorthdaliadau'r Undeb Ewropeaidd i ffermwyr o dan Golofn 1 y Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| Ardal â Ffocws Ecolegol | Un o brif elfennau'r mesurau gwyrdd ym mhecyn diwygio'r PAC. Rhaid i ffermydd â mwy na 15 hectar o dir âr gadw o leiaf 5% o'r tir hwn fel Ardal â Ffocws Ecolegol |
| Hawliau | Mae'r rhain yn sail i daliadau i ffermwyr o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol - pan gânt eu gweithredu bydd gan bob hawl werth a gellir ei ddefnyddio gan ffermwr i hawlio taliad bob blwyddyn, yn amodol ar fodloni rheolau perthnasol y cynllun |

[98] Defra, ***Implementation of CAP Reform in England: Consultation,*** Hydref 2013

| | |
|---|---|
| Tir cymwys | Yn gyffredinol, o fewn system y PAC mae tir yn gymwys o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol os yw'n dir âr, yn laswelltir neu'n dir pori parhaol neu'n gnydau parhaol, ond mae eithriadau |
| Cydgyfeirio allanol | Cydgyfeirio derbyniadau'r PAC rhwng Aelod-wladwriaethau. Mae hyn yn cael ei seilio ar dderbyniadau cyfartalog fesul hectar o dir cymwys |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| EC | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| SE | Senedd Ewrop |
| Taliad gwyrdd | Mae'r taliad gwyrdd yn cyfeirio at wella cynaliadwyedd amgylcheddol ffermio yn yr Undeb Ewropeaidd ymhellach. Mae 3 elfen allweddol o dan becyn newydd y PAC:<br>• Tyfu amrywiaeth o gnydau<br>• Cadw glaswelltir parhaol<br>• Darparu Ardaloedd â Ffocws Ecolegol |
| Ffermwr | Person naturiol neu gyfreithiol, neu grŵp o bersonau naturiol neu gyfreithiol y mae eu deiliad o fewn tiriogaeth yr un Aelod-wladwriaeth sy'n gwneud gweithgarwch amaethyddol. |
| Cyfradd safonol | Strwythur taliadau lle y byddai pob hectar o dir cymwys yn y rhanbarth y cael yr un faint o gymorth |

| | |
|---|---|
| Glaswellt ac eithrio porthiant glas | Pob planhigyn glas sydd i'w canfod yn draddodiadol ar dir pori naturiol neu sydd fel arfer yn cael eu cynnwys mewn cymysgedd o hadau ar gyfer tir pori sy'n aelod o'r Aelod-wladwriaethau |
| Daliad | Pob uned a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau amaethyddol ac a reolir gan ffermwr o fewn tiriogaeth yr un Aelod-wladwriaeth |
| Cydgyfeirio mewnol | O dan y sail hanesyddol ar gyfer dyrannu taliadau Colofn 1 mae'r symiau y mae ffermwyr yn ei gael yn seiliedig ar y swm cyfartalog y maent yn ei gael rhwng 2000 a 2002. Golyga hyn y gall ffermydd tebyg gyda mathau tebyg o dir gael lefelau gwahanol iawn o gymorth. Mae cydgyfeirio mewnol yn golygu cyfartalu'r symiau y mae ffermwyr yn eu cael fesul hectar naill ei fel cyfradd safonol ar gyfer pob tir amaethyddol neu ar gyfer mathau gwahanol i dir amaethyddol. |
| Ardal Llai Ffafriol | Ardaloedd lle ceir tir amaethyddol gwael sy'n gymwys i gael cymorth arbennig o dan gynlluniau'r UE. Cânt eu disodli gan Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol yn y PAC newydd. |
| Modiwleiddio | Trosglwyddo arian o Golofn 1 i Golofn 2 y PAC |
| Terfyn cenedlaethol / amlen genedlaethol | Dyraniad Aelod-wladwriaeth o gyllideb Colofn 1 |
| Y gronfa genedlaethol | Mewn perthynas â Chynllun y Taliad Unigol a Chynllun y Taliad Sylfaenol yn y dyfodol rhaid i Aelod-wladwriaethau greu 'cronfeydd cenedlaethol' gan ddefnyddio rhan o'u terfynau cenedlaethol. Defnyddir y symiau hyn i ddyrannu hawliau taliadau, yn bennaf i newydd-ddyfodiaid i ffermio os na fyddant wedi cael hawliau taliadau pan fyddant wedi caffael eu tir. |

| | |
|---|---|
| Cnydau parhaol | Cnydau nad ydynt yn gnydau cylchdro ac eithrio glaswelltir parhaol a thir pori parhaol sy'n tyfu ar y tir am bum mlynedd neu fwy ac sy'n cael eu cynaeafu'n  barhaus, gan gynnwys planhigfeydd a choedlannau cylchdro byr |
| Glaswelltir parhaol (gan gynnwys tir pori parhaol) | Tir a ddefnyddir i dyfu glaswelltir neu borthiant glas yn naturiol (hunan hadu) a thyfu drwodd ac nad yw wedi'i gynnwys yng nghylchdro cnydau'r daliad am bum mlynedd neu fwy. Gall Aelod-wladwriaethau/rhanbarthau gynnwys tir arall y gellir ei bori ac sy'n ffurfio rhan o arferion lleol sefydledig lle nad yw glaswelltir a phorthiant glas arall yn brif dyfiant mewn ardaloedd pori yn draddodiadol (e.e. grug pori o dan rai amgylchiadau) |
| Colofn 1: | Taliadau i ategu incwm ffermwyr ar ffurf taliadau uniongyrchol a mesurau'r farchnad sy'n cael eu hariannu'n gyfan gwbl o Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop. |
| Colofn 2: | Cymorth a ddarperir i ddatblygu ardaloedd gwledig - mae'r cymorth ar ffurf Rhaglenni Datblygu Gwledig a chaiff ei gydariannu o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. |
| Taliad Sengl | Elfen allweddol o'r PAC ers diwygiad 2003 lle mae ffermwyr yn cael Taliad Sengl wedi'i ddatgysylltu |
| Mesurau trosiannol | Y dulliau ar gyfer gweinyddu/cefnogi mentrau amaethyddol a datblygu gwledig yn ystod 2014, cyn i'r PAC newydd gael ei weithredu yn 2015. |

| | |
|---|---|
| Sefydliad Masnach y Byd | Sefydliad Rhynglywodraethol yw Sefydliad Masnach y Byd. O fis Mai 2012, roedd 153 o wledydd yn aelodau ohono - h.y. tau tri chwarter gwledydd y byd. Mae aelodau Sefydliad Masnach y Byd yn cydnabod y dylent weithio tuag at godi safonau byw, sicrhau cyflogaeth lawn a swm mawr o incwm gwirioneddol a galw effeithiol sy'n cynyddu'n raddol, ac ehangu cynhyrchu masnach mewn nwyddau a gwasanaethau, tra'n caniatáu'r defnydd mwyaf o adnoddau'r byd yn unol â'r amcan ar gyfer datblygu cynaliadwy, gan geisio diogel a gwarchod yr amgylchedd a gwella'r dull ar gyfer gwneud hynny mewn modd sy'n gyson â'u priod anghenion a'u pryderon ar wahanol lefelau o ddatblygiad economaidd. |